8. In addition to the protection of Welsh Ministers' current functions under the 2008 Act the Order includes provision that requires the Secretary of State and the Welsh Ministers to enter into a Memorandum of Understanding with each other setting out how they will work together in the exercise of their respective functions as a result of the Order.

Advantages of Using This Order

9. The Welsh Government supports the UK Government's use of the Order-making power to effect changes in relation to Wales as the most efficient and effective means of achieving both Governments' policy objective for better regulation. .

Financial Implications

10. There are no financial implications as a result of this Order - there will be no impact on any of the Budget Expenditure Lines within the Local Government and Communities Main Expenditure Group; the LBRO funding of £200,000 is already in the Main Expenditure Group. Any associated administration costs can be met from within the Local Government and Communities Delegated Running Costs budget.

Carl Sargeant
Welsh Minister for Local Government and Communities

Paratowyd y ddogfen hon gan gyfreithwyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn rhoi gwybodaeth a chyngor i Aelodau'r Cynulliad a'u cynorthwywyr ynghylch materion dan ystyriaeth gan y Cynulliad a'i bwyllgorau ac nid at unrhyw ddiben arall. Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth a'r cyngor a gynhwysir ynddi yn gywir, ond ni dderbynnir cyfrifoldeb am unrhyw ddibyniaeth a roddir arnynt gan drydydd partion.

This document has been prepared by National Assembly for Wales lawyers in order to provide information and advice to Assembly Members and their staff in relation to matters under consideration by the Assembly and its committees and for no other purpose. Every effort has been made to ensure that the information and advice contained in it are accurate, but no responsibility is accepted for any reliance placed on them by third parties

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

The Local Better Regulation Office (Dissolution and Transfer of Functions, Etc.) Order 2011

Nodyn cyngor cyfreithiol

Cefndir

1. Ar 10 Ionawr 2012, rhoddodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau hysbysiad ynghylch cynnig fel a ganlyn –
“That the National Assembly for Wales agrees that the Secretary of State should make the Local Better Regulation Office (Dissolution and Transfer of Functions, Etc) Order 2011 in accordance with the draft laid in Table Office on 10 January 2012.”

Trafodwyd y Memorandwm gan y Pwyllgor Busnes ar 10 Ionawr ac fe'i cyfeiriwyd at y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol er mwyn iddo graffu arno cyn iddo gael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn, a'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad yw 25 Ionawr 2012. Bwriad y nodyn hwn yw hwyluso'r drafodaeth honno.

Y Gorchymyn

2. Fel rhan o'i hadolygiad o gyrff cyhoeddus, penderfynodd Llywodraeth y DU i ddiddymu'r Swyddfa Gwell Rheoleiddio Leol (“y Swyddfa”), a throsglwyddo ei swyddogaethau i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru. Gosodwyd Gorchymyn gerbron Senedd y DU ar 6 Rhagfyr 2011, a bydd yn ddarostyngedig i benderfyniad cadarnhaol yn nau dŷ Senedd y DU.

3. Caiff y Gorchymyn ei wneud o dan bŵer anghyffredin. Sefydlwyd y Swyddfa gan Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sanctsiynau 2008 a oedd hefyd, yn adran 18, yn cynnwys pŵer i ddiddymu'r Swyddfa drwy Orchymyn, a throsglwyddo'i heiddo, hawliau a chyfrifoldebau, yn ogystal â'i swyddogaethau, i berson arall.

4. Bydd y Gorchymyn arfaethedig yn trosglwyddo'r staff, eiddo, hawliau a chyfrifoldebau i ofal yr Ysgrifennydd Gwladol. Caiff y swyddogaethau eu trosglwyddo i'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd, ac eithrio'r rheini sy'n ymwneud â materion mewn perthynas â Gweinidogion Cymru, a ddiffinnir yn adran 74

o Ddeddf 2008 fel materion yng Nghymru (o fewn ystyr Deddf Llywodraeth Cymru 2006) o ran Gweinidogion Cymru yn arfer eu swyddogaethau mewn perthynas â hwy. Caiff y swyddogaethau olaf hynny eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn y modd a ddisgrifiwyd ym mharagraff 6 o'r Memorandwm Cydsyniad a gyflwynwyd gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau. Mae'n ymddangos, felly, mai'r polisi yw dilyn ffiniau'r drefn ddatganoli bresennol o ran ailddyrrannu swyddogaethau'r Swyddfa. Ceir darpariaethau hefyd sy'n ymwneud ag ymgynghori a chydweithio rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru, gan gynnwys gofyniad am femorandwm cyd-ddealltwriaeth o ran gweithio ar y cyd (erthygl 4(3)).

Y Memorandwm Cydsyniad

5. Nid Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ôl yr ystyr a geir yn Rheol Sefydlog 30 yw hwn, gan nad yw'n gysylltiedig â darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil sydd gerbron Senedd y DU. Fodd bynnag, mae'n debyg i Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gan ei fod yn cynnwys darpariaethau i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol sy'n berthnasol i Gymru am fater sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol hy llywodraeth leol.
6. Fel yr esbonnir ym mharagraff 1 o Femorandwm Cydsyniad y Gweinidog, mae'n deillio o ganllawiau sydd wedi'u cynnwys yng Nghanllawiau ar Ddatganoli rhif 9, sy'n ehangu cwrpas egwyddor y cymhwysedd deddfwriaethol i welliannau i ddeddfwriaeth sylfaenol a wneir drwy Orchymyn gan Weinidogion y DU. Er nad yw hwn yn bwnc y casglwyd tystiolaeth yn ei gylch yn ystod ymchwiliad diweddar y Pwyllgor i drosglwyddo swyddogaethau i Weinidogion Cymru, mae'n amlwg yn enghraifft berthnasol iawn, ac yn rhywbeth y mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor am gyfeirio ato yn ei adroddiad.
7. Er na cheisiwyd cydsyniad mewn perthynas â gorchymyn o'r fath cyn hyn, rhagdybiwyd y byddai'r Pwyllgor yn ystyried categori penodol o orchymynion a wnaed yn San Steffan. Y categori o dan sylw yw gorchymynion drafft a wnaed o dan Rhan 1 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 [Rheol Sefydlog 21.7(iii)]. Y rheswm dros hynny oedd y gallai gorchymynion o dan y Ddeddf honno ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol mewn perthynas â Chymru. Ystyriwyd hi'n briodol, felly, i'r Pwyllgor ystyried y Gorchymyn hwn yn yr un modd, er mwyn llywio ystyriaethau'r Cynulliad am y cynnig hwn.
8. Gall y Gorchymyn hwn fod yn 'beilot' defnyddiol hefyd ar gyfer gorchymynion eraill. Er enghraifft, mae'r Ddeddf Cyrff Cyhoeddus yn cynnwys ystod eang o bwerau sy'n cynnwys diddymu cyrff cyhoeddus a throsglwyddo eu swyddogaethau a'u hasedau ac ati.

Casgliad

9. Argymhellir i'r Pwyllgor ystyried a yw'n fodlon ar y gorchymyn presennol ac a ddysgwyd unrhyw wersi o'r enghraifft hon y dylid eu hystyried yn ei adroddiad.

Y Gwasanaethau Cyfreithiol

Ionawr 2012

Eitem 5.1

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Constitutional and Legislative Affairs Committee

Gwenda Thomas AC,
Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau
Cymdeithasol,
Llywodraeth Cymru,
5ed Llawr,
Tŷ Hywel,
Bae Caerdydd,
CF99 1NA.



Cynulliad National
Cenedlaethol Assembly for
Cymru Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

2 Rhagfyr 2011

Annwyl Dirprwy Weinidog

CLA59 - Rheoliadau Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2011

Bu'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn trafod y Rheoliadau uchod yn ei gyfarfod ar 28 Tachwedd 2011 a chytunwyd y dylwn ddwyn i'ch sylw adroddiad y Pwyllgor ar rinweddau'r Rheoliadau, a gyhoeddwyd o dan Reol Sefydlog 21.3.

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n gwahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau hyn ar y sail "ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad" (Rheol Sefydlog 21.3(ii)).

Gosodwyd adroddiad y Pwyllgor ar y Rheoliadau yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Rhagfyr, ac mae wedi'i atodi er gwybodaeth. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ystyried yr adroddiad a rhoi gwybod i'r Pwyllgor beth yw eich ymateb.

Rwy'n anfon copi o'r adroddiad hwn at y Prif Weinidog er gwybodaeth, ac rwyf hefyd wedi gwneud trefniadau i ddwyn yr adroddiad a'r llythyr hwn i sylw Aelodau'r Cynulliad.

Yn gywir

David Melding AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Gwenda Thomas AC / AM
Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Children and Social Services



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: CLA59
Ein cyf/Our ref : SF/GT/7122/11

David Melding AM
Chair,
Constitutional and Legislative Affairs Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

10th January 2012

Dear David,

Thank you for your letter and report dated 2 December, informing me of the outcome of the Constitutional and Legislative Affairs Committee meeting that considered the Carers Strategies (Wales) Regulations 2011. In the report the Committee issued ahead of the meeting you set out concerns regarding the parity of status between the English and Welsh languages, in relation to the production of the local strategies: Paragraph (7) of Regulation 9 that states that "...the strategy must be published in both English and Welsh *unless it is not reasonably practicable to do so*". The Committee felt that this line gave the suggestion that the two languages would not be given equal treatment.

As I outlined in the Government's response to your report, the strategies are not legislation and as such we do not believe that Section 156(1) of the Government of Wales Act 2006 applies. Your discussion at the Committee meeting felt that this explanation ran counter to the principle set out in Section 156(1) of the Government of Wales Act 2006, which states that texts of an Assembly Measure, Act or subordinate legislation are to be treated for all purposes as being of equal standing. Having considered this issue further, I accept the spirit of the point made by the Committee. It was never our intention to be seen to be treating the two languages differently and for this reason, as you will recall, when we debated these Regulations in plenary on 6 December I said that I would bring forward amending Regulations to revoke paragraph (7) of Regulation 9. Public authorities are already required under the Welsh Language Act 1993 to produce information which will be of interest to the public, bilingually.

*Yours sincerely,
Gwenda.*

Gwenda Thomas AC / AM
Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Children and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Gwenda.Thomas@wales.gsi.gov.uk
Printed on 100% recycled paper

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)

Eitem 6.1

DOGFENNAU SY'N MYND GYDA'R MESUR
Caiff Nodiadau Esboniadol a Memorandwm Esboniadol eu hargraffu ar wahân.

Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru)

[FEL Y'I CYFLWYNWYD]

CYNNWYS

Cyflwyniad

1 Trosolwg

Y pŵer i wneud is-ddeddfau

2 Is-ddeddfau ar gyfer rheolaeth dda a llywodraeth ac atal niwsansau

Dehongli

3 Ystyr "awdurdod deddfu"

Dirymu neu ddiwygio is-ddeddfau

4 Dirymu neu ddiwygio gan awdurdod deddfu

5 Dirymu gan Weinidogion Cymru

Y weithdrefn ar gyfer is-ddeddfau

6 Is-ddeddfau pan na fo cadarnhad yn ofynnol

7 Is-ddeddfau pan fo cadarnhad yn ofynnol

8 Materion ffurfiol, cychwyn a chyhoeddi is-ddeddfau

9 Y pŵer i ddiwygio Rhan 1 o Atodlen 1

Gorfodi is-ddeddfau

10 Tramgwyddau yn erbyn is-ddeddfau

11 Is-ddeddfau adran 2; pwerau ymafael etc

Hysbysiadau cosbau penodedig

12 Y pŵer i gynnig cosbau penodedig am dramgwyddau yn erbyn is-ddeddfau penodol

13 Swm cosb benodedig

14 Y pŵer i ofyn am enw a chyfeiriad mewn cysylltiad â chosb benodedig

15 Y defnydd o dderbyniadau am gosbau penodedig

16 Y pŵer i ddiwygio Rhan 2 o Atodlen 1

17 Swyddogion Cymorth Cymunedol etc

Amrywiol a chyffredinol

18 Canllawiau

19 Tystiolaeth o is-ddeddfau

20 Diwygiadau canlyniadol

21 Gorchmynion a rheoliadau

22 Cychwyn

23 Enw byr

- Atodlen 1 – Rhestrau o bwerau i wneud is-ddeddfau
 - Rhan 1 – Is-ddeddfau pan na fo cadarnhad yn ofynnol
 - Rhan 2 – Is-ddeddfau y caniateir dyroddi cosbau penodedig mewn perthynas â hwy
- Atodlen 2 – Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol

Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru)

[FEL Y'I CYFLWYNWYD]

Bil gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud darpariaeth ar gyfer pwerau cynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol, cynghorau cymuned a chyrff cyhoeddus eraill i wneud is-ddeddfau; y weithdrefn ar gyfer gwneud is-ddeddfau; gorfodi is-ddeddfau; ac at ddibenion cysylltiedig.

Gan ei fod wedi ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a chael cysyniad Ei Mawrhydi, deddfir fel a ganlyn:

Cyflwyniad

1 Trosolwg

Mae'r Ddeddf hon –

- yn diwygio gweithdrefnau ar gyfer gwneud is-ddeddfau yng Nghymru, gan gynnwys tynnu ymaith ofyniad am gadarnhau is-ddeddfau gan Weinidogion Cymru;
- yn galluogi i is-ddeddfau penodol gael eu gorfodi drwy hysbysiadau cosbau penodedig;
- yn ei gwneud hi'n ofynnol i unrhyw awdurdodau sy'n gwneud is-ddeddfau roi sylw i unrhyw ganllawiau ar weithdrefn a roddir gan Weinidogion Cymru;
- yn ailddatgan i Gymru pŵer cyffredinol i wneud is-ddeddfau.

Y pŵer i wneud is-ddeddfau

2 Is-ddeddfau ar gyfer rheolaeth dda a llywodraeth ac atal niwsansau

(1) Caiff cyngor yng Nghymru wneud is-ddeddfau –

- ar gyfer rheolaeth dda a llywodraeth y cyfan neu unrhyw ran o'i ardal;
- ar gyfer rhwystro ac atal niwsansau yn ei ardal.

(2) Ond ni chaiff is-ddeddfau wneud darpariaeth –

- a wnaed gan Ddeddf Seneddol, Mesur neu Ddeddf y Cynulliad;
- a wnaed, neu a gellid ei wneud, gan is-ddeddfwriaeth (sy'n golygu deddfwriaeth a wneir gan offeryn statudol).

(3) Mae'r adran hon yn gymwys i'r canlynol –

- cyngor bwrdeistref sirol;
- cyngor sir.

Dehongli

3 Ystyr “awdurdod deddfu”

Mae pob un o'r canlynol yn awdurdod deddfu at ddibenion y Ddeddf hon—

- (a) cyngor bwrdeistref sirol;
- (b) cyngor sir;
- (c) cyngor cymuned;
- (d) awdurdod Parc Cenedlaethol;
- (e) Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

Dirymu neu ddiwygio is-ddeddfau

4 Dirymu neu ddiwygio gan awdurdod deddfu

- (1) Caiff awdurdod deddfu wneud is-ddeddf i ddirymu neu ddiwygio is-ddeddf a wnaed yn flaenorol ganddo.
- (2) Ond caniateir arfer y pŵer hwn dim ond pan nad oes pŵer arall gan yr awdurdod i ddiddymu neu ddiwygio is-ddeddf.
- (3) Mae pŵer i ddirymu neu ddiwygio is-ddeddf yn arferadwy yn yr un modd ac yn ddarostyngedig i'r un amodau neu gyfyngiadau ag ydyw'r pŵer i wneud is-ddeddf.

5 Dirymu gan Weinidogion Cymru

- (1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy orchymyn ddirymu unrhyw is-ddeddf a wnaed gan awdurdod deddfu y maent o'r farn ei bod yn anarferedig.
- (2) Caiff gorchymyn neud darpariaeth wahanol ar gyfer ardaloedd gwahanol, gan gynnwys darpariaeth wahanol ar gyfer broydd gwahanol ac ar gyfer awdurdodau gwahanol.

Y weithdrefn ar gyfer is-ddeddfau

6 Is-ddeddfau pan na fo cadarnhad yn ofynnol

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys i is-ddeddfau a wneir gan awdurdod deddfu o dan y deddfiadau a restrir yn Rhan 1 o Atodlen 1.
- (2) Cyn iddo wneud is-ddeddf, rhaid i awdurdod—
 - (a) cyhoeddi datganiad ysgrifenedig cychwynnol ar wefan yr awdurdod sy'n disgrifio'r mater y mae'r awdurdod o'r farn y gallai gwneud is-ddeddf fynd i'r afael ag ef;
 - (b) ymgynghori â phersonau y mae'r awdurdod o'r farn eu bod yn debygol o fod â diddordeb yn y mater neu'n cael eu heffeithio ganddo.
- (3) Yn dilyn yr ymgynghoriad, rhaid i'r awdurdod ystyried yr ymatebion a phenderfynu ai gwneud is-ddeddf yw'r dull mwyaf priodol o fynd i'r afael â'r mater.

- (4) Yna rhaid i'r awdurdod gyhoeddi ail ddatganiad ysgrifenedig ar ei wefan sy'n cynnwys –
- (a) y datganiad ysgrifenedig cychwynnol;
 - (b) crynodeb o'r ymgynghoriad a'r ymatebion;
 - (c) ei benderfyniad;
 - (d) y rhesymau am y penderfyniad hwnnw.
- (5) O leiaf un mis cyn bod yr is-ddeddf yn cael ei gwneud, rhaid cyhoeddi hysbysiad o'r bwriad i wneud yr is-ddeddf –
- (a) mewn un neu fwy o bapurau newyddion lleol sy'n cylchredeg yn yr ardal y mae'r is-ddeddf i fod yn gymwys iddi;
 - (b) ar wefan yr awdurdod.
- (6) Am o leiaf un mis cyn bod yr is-ddeddf yn cael ei gwneud, rhaid i'r awdurdod sicrhau –
- (a) bod drafft o'r is-ddeddf yn cael ei gyhoeddi ar wefan yr awdurdod;
 - (b) bod copi o'r drafft yn cael ei adneuo yn ei brif swyddfa;
 - (c) bod copi ar gael i'w weld gan y cyhoedd ar bob adeg resymol yn ddi-dâl.
- (7) Rhaid i'r awdurdod roi copi o'r is-ddeddf ar ffurf ddrafft i unrhyw berson sy'n gwneud cais amdano, ar yr amod bod y person hwnnw'n talu ffi resymol a godir gan yr awdurdod (os oes un).
- (8) Ni chaiff awdurdod wneud is-ddeddf yn hwyrach na 6 mis ar ôl dyddiad yr hysbysiad yn is-adran (5).

7 Is-ddeddfau pan fo cadarnhad yn ofynnol

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys i is-ddeddfau a wneir gan awdurdod deddfu o dan unrhyw ddeddfiad ar wahân i'r rhai a restrir yn Rhan 1 o Atodlen 1.
- (2) Ond nid yw'r adran hon yn gymwys i'r graddau bod y deddfiad sy'n rhoi'r pŵer i wneud is-ddeddf yn gwneud darpariaeth wahanol mewn perthynas ag un neu ragor o'r canlynol –
- (a) gofyniad i gyflwyno is-ddeddfau ar gyfer cael cadarnhad;
 - (b) cyhoeddi hysbysiad o fwriad i wneud yr is-ddeddf;
 - (c) cyhoeddi'r is-ddeddf;
 - (d) trefnu bod copïau o'r is-ddeddf ar gael.
- (3) Rhaid i is-ddeddfau a wnaed gan yr awdurdod deddfu gael eu cyflwyno i'r awdurdod cadarnhau ac nid ydynt yn cael effaith oni chânt a nes y cânt eu cadarnhau gan yr awdurdod cadarnhau.
- (4) O leiaf un mis cyn gwneud cyflwyno is-ddeddf ar gyfer cael cadarnhad, rhaid cyhoeddi hysbysiad o fwriad yr awdurdod deddfu i wneud hynny –
- (a) mewn un neu fwy o bapurau newyddion lleol sy'n cylchredeg yn yr ardal y mae'r is-ddeddf i fod yn gymwys iddi;
 - (b) ar wefan yr awdurdod.

- (5) Am o leiaf un mis cyn cyflwyno'r is-ddeddf ar gyfer cael cadarnhad, rhaid i'r awdurdod deddfu sicrhau –
- (a) bod yr is-ddeddf yn cael ei chyhoeddi ar wefan yr awdurdod;
 - (b) bod copi o'r is-ddeddf yn cael ei adneuo yn ei brif swyddfa (ac, yn achos is-ddeddf a wnaed gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru o dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949, ym mhrif swyddfa cyngor pob sir neu fwrdeistref sirol y mae'r is-ddeddf yn gymwys iddo);
 - (c) bod copi ar gael i'w weld gan y cyhoedd ar bob adeg resymol yn ddi-dâl.
- (6) Rhaid i'r awdurdod deddfu roi copi o'r is-ddeddf i unrhyw berson sy'n gwneud cais amdano ar yr amod bod y person hwnnw'n talu ffi resymol a godir gan yr awdurdod (os oes un).
- (7) Caiff yr awdurdod cadarnhau gadarnhau, neu wrthod cadarnhau, unrhyw is-ddeddf a gyflwynir iddo o dan yr adran hon.
- (8) At ddibenion y Ddeddf hon, yr awdurdod cadarnhau yw –
- (a) y person a bennir yn y deddfiad y gwneir yr is-ddeddfau odano fel y person sydd i gadarnhau'r is-ddeddfau, neu
 - (b) os na phennir unrhyw berson, Gweinidogion Cymru.
- (9) Mae swyddogaethau Gweinidogion Cymru o dan is-adran (8)(b) yn arferadwy yn gydredol â'r Ysgrifennydd Gwladol.

20 **8 Materion ffurfiol, cychwyn a chyhoeddi is-ddeddfau**

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys i is-ddeddfau a wnaed gan awdurdod deddfu o dan unrhyw ddeddfiad.
- (2) Ond nid yw'r adran hon yn gymwys i'r graddau bod y deddfiad sy'n rhoi'r pŵer i wneud is-ddeddf yn gwneud darpariaeth wahanol mewn perthynas ag un neu ragor o'r canlynol –
- (a) llofnodi'r is-ddeddf neu roi sêl arni;
 - (b) cyhoeddi'r is-ddeddf;
 - (c) trefnu bod copïau o'r is-ddeddf ar gael.
- (3) Rhaid i is-ddeddfau a wneir gan awdurdod deddfu gael eu gwneud o dan sêl gyffredin yr awdurdod, neu, yn achos is-ddeddfau a wneir gan gyngor cymuned nad oes sêl ganddo, wedi'i lofnodi gan ddau aelod o'r cyngor.
- (4) Mae is-ddeddfau yn dod yn effeithiol ar y dyddiad a bennir gan yr awdurdod deddfu, neu, os oes angen eu cadarnhau, y dyddiad a bennir gan yr awdurdod cadarnhau. Os na phennir dyddiad, maent yn dod yn effeithiol ar ddiwedd un mis ar ôl y dyddiad y'u gwnaed (neu'r dyddiad y'u cadarnhawyd, fel y bo'n gymwys).
- (5) Rhaid i'r awdurdod deddfu sy'n gwneud yr is-ddeddf –
- (a) cyhoeddi'r is-ddeddf pan wnaed hi ar wefan yr awdurdod, neu os oes angen iddi gael ei chadarnhau, pan gafodd ei chadarnhau;
 - (b) adneuo copi o'r is-ddeddf yn ei brif swyddfa;

- (c) sicrhau bod y copi ar gael i'w weld gan y cyhoedd ar bob adeg resymol yn ddi-dâl;
- (d) rhoi copi o'r is-ddeddf i unrhyw berson sy'n gwneud cais amdano, ar yr amod bod y person hwnnw'n talu ffi resymol a godir gan yr awdurdod (os oes un).
- 5 (6) Rhaid i swyddog priodol cyngor bwrdeistref sirol neu gyngor sir yng Nghymru anfon copi o is-ddeddf cyn gynted â'i bod wedi ei gwneud, neu pan fo'n ofynnol cyn gynted â'i bod wedi ei chadarnhau, at swyddog priodol cyngor pob cymuned y mae'r is-ddeddf yn gymwys iddi.
- 10 (7) Yn achos is-ddeddfau a wnaed gan awdurdod Parc Cenedlaethol, rhaid i swyddog priodol yr awdurdod anfon copi o is-ddeddf cyn gynted â'i bod wedi ei gwneud, neu pan fo'n ofynnol cyn gynted â'i bod wedi ei chadarnhau, at swyddog priodol—
- (a) cyngor pob bwrdeistref sirol neu sir y mae ei ardal yn cynnwys y cyfan neu ran o'r Parc Cenedlaethol, a
- (b) cyngor pob cymuned y mae ei ardal yn cynnwys y cyfan neu ran o'r Parc Cenedlaethol.
- 15 (8) Yn achos is-ddeddfau a wnaed gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru o dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949, rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn anfon copi o is-ddeddf cyn gynted â'i bod wedi ei gwneud, neu pan fo'n ofynnol cyn gynted â'i bod wedi ei chadarnhau, at swyddog priodol—
- (a) cyngor pob bwrdeistref sirol neu sir y mae'r is-ddeddf yn gymwys i'w ardal;
- 20 (b) cyngor pob cymuned y mae'r is-ddeddf yn gymwys i'w ardal.
- (9) Rhaid i swyddog priodol y cyngor cymuned—
- (a) trefnu bod copi o'r is-ddeddf a anfonwyd at y swyddog yn cael ei adneuo gyda dogfennau cyhoeddus y gymuned;
- (b) sicrhau bod y copi ar gael i'w weld gan y cyhoedd ar bob adeg resymol yn ddi-dâl.
- 25 (10) Yn is-adrannau (6) i (9) y "swyddog priodol" yw'r swyddog a awdurdodwyd yn briodol at y diben hwnnw gan y corff hwnnw.

9 Y pŵer i ddiwygio Rhan 1 o Atodlen 1

Caiff Gweinidogion Cymru drwy orchymyn ddiwygio Rhan 1 o Atodlen 1 (Is-ddeddfau pan na fo cadarnhad yn ofynnol) drwy ychwanegu at y rhestr o ddeddfiadau neu dynnu oddi arni, neu drwy ddiwygio'r math o awdurdod a gaiff wneud is-ddeddfau heb iddynt gael eu cadarnhau.

Gorfodi is-ddeddfau

10 Tramgwyddau yn erbyn is-ddeddfau

- 35 (1) Caiff is-ddeddfau a wneir gan awdurdod deddfu o dan unrhyw ddeddfiad ddarparu bod personau sy'n mynd yn groes i'r is-ddeddfau yn atebol ar gollfarn ddiannod i ddirwy.
- (2) Rhaid i'r ddirwy beidio â bod yn uwch na'r canlynol, naill ai—
- (a) y swm a bennir gan y deddfiad sy'n rhoi'r pŵer i wneud yr is-ddeddfau; neu
- (b) os na phennir y swm felly, lefel 2 ar y raddfa safonol.

- (3) Yn achos tramgwydd sy'n parhau, caiff yr is-ddeddfau ddarparu bod y tramgwyddwr yn atebol ar gollfarn ddiannod i ddirwy bellach.
- (4) Rhaid i'r ddirwy bellach beidio â bod yn uwch na'r canlynol, naill ai—
- (a) y swm a bennir gan y deddfiad sy'n rhoi'r pŵer i wneud yr is-ddeddfau, neu
- (b) os na phennir swm felly, y swm o £5 am bob diwrnod y mae'r tramgwydd yn parhau ar ôl collfarn am y tramgwydd hwnnw.

11 Is-ddeddfau adran 2; pwerau ymafael etc

Caiff is-ddeddf a wnaed o dan adran 2 gynnwys darpariaeth ar gyfer neu mewn cysylltiad â'r canlynol—

- (a) ymafael mewn unrhyw eiddo a'i gadw mewn cysylltiad ag unrhyw doriad o'r is-ddeddf, a
- (b) fforffedu unrhyw eiddo o'r fath pan gaiff person ei gollfarnu o dramgwydd am dorri'r is-ddeddf.

Hysbysiadau cosbau penodedig

12 Y pŵer i gynnig cosbau penodedig am dramgwyddau yn erbyn is-ddeddfau penodol

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys i is-ddeddfau a wnaed gan awdurdod deddfu o dan y deddfiadau a restrir yn Rhan 2 o Atodlen 1 (Is-ddeddfau y caniateir dyroddi cosbau penodedig mewn perthynas â hwy).
- (2) Pan fo gan swyddog a awdurdodwyd gan awdurdod deddfu reswm dros gredu bod person wedi cyflawni tramgwydd yn erbyn is-ddeddf a wnaed gan yr awdurdod hwnnw, caniateir i'r swyddog roi hysbysiad i'r person hwnnw yn cynnig y cyfle iddo fodloni unrhyw atebolrwydd i gollfarn am y tramgwydd drwy dalu cosb benodedig.
- (3) Pan fo swyddog a awdurdodwyd gan gyngor cymuned reswm dros gredu bod person wedi cyflawni tramgwydd yn ei ardal yn erbyn is-ddeddf a wnaed gan awdurdod deddfu heblaw'r cyngor cymuned, caniateir i'r swyddog roi hysbysiad i'r person hwnnw yn cynnig y cyfle iddo fodloni unrhyw atebolrwydd i gollfarn am y tramgwydd drwy dalu cosb benodedig.
- (4) Mae cosb benodedig o dan yr adran hon yn daladwy i awdurdod y swyddog a roddodd yr hysbysiad.
- (5) Pan roddir hysbysiad i berson o dan yr adran hon mewn perthynas â thramgwydd—
- (a) ni chaniateir cychwyn achos am y tramgwydd cyn diwedd y cyfnod o 14 o ddiwrnodau ar ôl dyddiad yr hysbysiad, a
- (b) ni chaniateir collfarnu'r person am y tramgwydd os bydd y person yn talu'r gosb benodedig cyn diwedd y cyfnod hwnnw.
- (6) Rhaid i hysbysiad o dan y rheoliad hwn roi'r manylion hynny am yr amgylchiadau yr honnir eu bod yn ffurfio tramgwydd fel sy'n angenrheidiol i esbonio paham fod tramgwydd wedi digwydd.
- (7) Rhaid i hysbysiad o dan yr adran hon hefyd ddatgan—
- (a) o fewn pa gyfnod, yn rhinwedd is-adran (5), ni ddygir achos am y tramgwydd;

(b) swm y gosb benodedig;

(c) enw'r person y caniateir i'r gosb benodedig gael ei thalu iddo a'r cyfeiriad lle y caniateir iddi gael ei thalu.

(8) Heb ragfarnu taliad drwy unrhyw ddull arall, caniateir talu cosb benodedig drwy ragdaliad a phostio llythyr sy'n cynnwys swm y gosb (mewn arian parod neu fel arall) i'r person y cyfeirir ato yn yr hysbysiad yn y cyfeiriad a roddir ynddo.

(9) Os anfonir llythyr bernir bod taliad wedi ei wneud ar yr amser y byddid yn traddodi'r llythyr hwnnw yn nhrefn arferol y post.

(10) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau bennu ffurf hysbysiad o dan yr adran hon.

(11) Mewn unrhyw achos mae tystysgrif –

(a) sy'n honni ei bod wedi ei llofnodi ar ran prif swyddog cyllid awdurdod, a

(b) sy'n datgan y daeth neu na ddaeth taliad o gosb benodedig i law erbyn y dyddiad a bennwyd yn y dystysgrif,

yn dystiolaeth o'r ffeithiau a ddatganwyd.

(12) Yn yr adran hon –

ystyr “swyddog awdurdodedig”, mewn perthynas ag awdurdod, yw –

(a) cyflogai i'r awdurdod a awdurdodwyd yn ysgrifenedig gan yr awdurdod at ddibenion rhoi hysbysiadau o dan yr adran hon,

(b) unrhyw berson y mae ganddo, yn unol â threfniadau a wnaed gyda'r awdurdod, y swyddogaeth o roi hysbysiadau o'r fath ac sydd wedi ei awdurdodi'n ysgrifenedig gan yr awdurdod i gyflawni'r swyddogaeth, ac

(c) unrhyw gyflogai i berson o'r fath sydd wedi ei awdurdodi'n ysgrifenedig gan yr awdurdod at ddibenion rhoi hysbysiadau o'r fath;

ystyr “prif swyddog cyllid”, mewn perthynas ag awdurdod, yw'r person sydd â'r cyfrifoldeb am faterion ariannol yr awdurdod.

(13) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ragnodi'r amodau sydd i'w bodloni gan berson cyn y caiff cyngor cymuned awdurdodi'r person yn ysgrifenedig at ddibenion rhoi hysbysiadau o dan yr adran hon.

13 Swm cosb benodedig

(1) Caiff awdurdod deddfu –

(a) pennu swm y gosb benodedig sy'n daladwy yn unol â hysbysiad o dan adran 12;

(b) pennu symiau gwahanol mewn perthynas ag is-ddeddfau gwahanol.

(2) Os na phennir unrhyw swm felly, swm y gosb benodedig yw £75.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth mewn cysylltiad â'r pwerau o dan is-adran (1).

(4) Caiff Rheoliadau o dan is-adran (3), yn benodol –

(a) ei gwneud yn ofynnol bod swm a bennir o dan is-adran (1)(a) yn dod o fewn ystod a ragnodir yn y rheoliadau,

- (b) cyfyngu ar y rhychwant y caiff awdurdod wneud darpariaeth o dan is-adran (1) (b) a chyfyngu ar yr amgylchiadau pan all wneud hynny.

- (5) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn roi swm arall yn lle'r swm a bennir am y tro yn is-adran (2).

5 14 Y pŵer i ofyn am enw a chyfeiriad mewn cysylltiad â chosb benodedig

- (1) Os bydd swyddog awdurdodedig yn bwriadu rhoi hysbysiad i berson o dan adran 12, caniateir i'r swyddog ei gwneud yn ofynnol bod y person yn rhoi ei enw a'i gyfeiriad.

- (2) Mae person yn cyflawni tramgwydd os yw'r person hwnnw –

- (a) heb esgus rhesymol yn methu â rhoi ei enw a'i gyfeiriad pan fo hynny'n ofynnol, neu

- (b) os yw'n rhoi enw neu gyfeiriad anwir neu anghywir wrth ymateb i ofyniad o dan yr is-adran honno.

- (3) Mae person sy'n euog o dramgwydd o dan is-adran (2) yn atebol ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

- (4) Yn yr adran hon mae i "swyddog awdurdodedig" yr un ystyr ag sydd ganddo yn adran 12.

15 Y defnydd o dderbyniadau am gosbau penodedig

- (1) Rhaid i'r awdurdod roi sylw i'r dymunoldeb o ddefnyddio ei dderbyniadau am gosbau penodedig at ddibenion mynd i'r afael ag unrhyw niwsans y gwnaed is-ddeddf gan yr awdurdod er mwyn ei atal.

- (2) Ystyr "derbyniadau am gobau penodedig" yw symiau a dalwyd i awdurdod yn unol â hysbysiadau o dan adran 12.

16 Y pŵer i ddiwygio Rhan 2 o Atodlen 1

Caiff Gweinidogion Cymru drwy orchymyn ddiwygio Rhan 2 o Atodlen 1 (Is-ddeddfau y caniateir dyroddi hysbysiadau cosbau penodedig mewn perthynas â hwy) drwy ychwanegu at y rhestr o ddeddfiadau neu dynnu oddi arni, neu drwy ddiwygio'r math o awdurdod a gaiff gynnig hysbysiadau cosbau penodedig.

17 Swyddogion Cymorth Cymunedol etc

- (1) Mae Deddf Diwygio'r Heddlu 2002 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

- (2) Yn Atodlen 4 (pwerau sy'n cael eu harfer gan heddlu sy'n sifiliaid) –

- (a) ym mharagraff 1ZA(3) ar ôl "1972" mewnosoder "or under section 12 of the Local Government Byelaws (Wales) Act 2012";

- (b) ym mharagraff 1ZA(5)(a) ar ôl "1972" mewnosoder "or to which section 12 of the Local Government Byelaws (Wales) Act 2012 applies".

- (3) Yn Atodlen 5 (pwerau sy'n cael eu harfer gan bersonau achrededig) –

- (a) ym mharagraff 1A(3) ar ôl "1972" mewnosoder "or under section 12 of the Local Government Byelaws (Wales) Act 2012";

- (b) ym mharagraff 1A(5)(a) ar ôl “1972” mewnosoder “or to which section 12 of the Local Government Byelaws (Wales) Act 2012 applies”.

Amrywiol a chyffredinol

18 Canllawiau

- 5 (1) Caiff Gweinidogion Cymru roi canllawiau i awdurdodau deddfu ynghylch—
- (a) y weithdrefn ar gyfer gwneud yr is-ddeddfau y mae adran 6 neu 7 yn gymwys iddi;
 - (b) gorfodi is-ddeddfau;
 - (c) unrhyw beth sy'n ymwneud â'r materion hyn gan gynnwys —
- 10 (i) gofynion ymgynghori a chyhoeddi;
- (ii) y defnydd o gosbau penodedig.
- (2) Rhaid i awdurdod deddfu roi sylw i'r canllawiau wrth wneud neu wrth orfodi is-ddeddfau.

19 Tystiolaeth o is-ddeddfau

- 15 (1) Mae dangos copi ardystiedig o is-ddeddf sy'n honni iddi gael ei gwneud gan awdurdod deddfu, nes profir i'r gwrthwyneb, yn dystiolaeth ddigonol o'r ffeithiau a ddatgenir yn y dystysgrif.
- (2) At ddibenion yr adran hon, copi ardystiedig o is-ddeddf yw copi wedi ei argraffu o'r is-ddeddf a arnodwyd ynghyd â thystysgrif sy'n honni iddi gael ei llofnodi gan swyddog
- 20 priodol awdurdod deddfu sy'n datgan—
- (a) bod yr is-ddeddf wedi cael ei gwneud gan yr awdurdod;
 - (b) bod y copi yn gopi gwir o'r is-ddeddf;
 - (c) bod yr is-ddeddf wedi ei chadarnhau ar ddiwrnod penodedig gan yr awdurdod a enwir yn y dystysgrif neu, yn ôl y digwydd, wedi cael ei hanfon at yr awdurdod
- 25 cadarnhau a heb gael ei gwrthod;
- (d) y dyddiad, os oes un, a bennwyd gan yr awdurdod cadarnhau i'r is-ddeddf ddod yn effeithiol.
- (3) Nid yw'r gofynion ym mharagraffau (c) a (d) o is-adran (2) yn gymwys os nad oedd yr is-ddeddf yn ddarostyngedig i gadarnhad ar ôl iddi gael ei gwneud.

30 **20 Diwygiadau canlyniadol**

Mae Atodlen 2 (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol) yn cael effaith.

21 Gorchmynion a rheoliadau

- (1) Mae pŵer i wneud gorchmyn neu reoliadau o dan y Ddeddf hon yn cynnwys pŵer i wneud darpariaeth gysylltiedig, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol neu
- 35 ddarpariaeth atodol sy'n briodol yn nhyb Gweinidogion Cymru.
- (2) Yn achos y pŵer o dan adrannau 9 ac 16, mae'r ddarpariaeth hon yn cynnwys diwygio, diddymu neu ddirymu deddfiadau.

- (3) Mae unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Ddeddf hon yn arferadwy drwy offeryn statudol.
- (4) Ni chaniateir i offeryn statudol sy'n cynnwys gorchymyn o dan adran 9, 13(5) neu 16 gael ei wneud onid oes drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a'i gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad.
- (5) Mae unrhyw offeryn statudol arall sy'n cynnwys gorchymyn neu reoliadau o dan y Ddeddf hon, ac eithrio offeryn nad yw ond yn cynnwys gorchymyn o dan adran 22 (cychwyn), yn ddarostyngedig i'w ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

10 **22 Cychwyn**

- (1) Daw'r Ddeddf hon i rym yn unol â darpariaeth a wneir gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn.
- (2) Caiff gorchymyn o dan yr adran hon—
- (a) penodi diwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol;
 - (b) cynnwys darpariaeth drosiannol, darpariaeth arbed neu ddarpariaeth ddarfodol.

15 **23 Enw byr**

Enw byr y Ddeddf hon yw Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012.

ATODLEN 1
(Adrannau 6 a 12)

RHESTRAU O BWERAU I WNEUD IS-DDEDDFAU

RHAN 1

IS-DDEDDFAU PAN NA FO CADARNHAD YN OFYNNOL

- 1 Mae adran 6 yn gymwys i is-ddeddfau a wnaed –
- (a) o dan y deddfiadau a restrir yng ngholofn gyntaf y tabl isod,
 - (b) mewn perthynas â'r pwnc a restrir yn ail golofn y tabl,
 - (c) gan y math o awdurdod a restrir yn nhrydedd golofn y tabl.

TABL RHAN 1

| Y deddfiad y gwneir is-ddeddfau odano | Pwnc yr is-ddeddfau | Y math o awdurdod sy'n gwneud yr is-ddeddfau |
|---|--|--|
| Adran 68 o Ddeddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 | Rheoleiddio cerbydau hacnai | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| Adran 164 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1875 | Rhodfeydd cyhoeddus a thiroedd hamdden | Cyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol a chyngor cymuned |
| Adran 6 o Ddeddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1889 | Rheoleiddio bysiau a dynnir gan geffylau | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| Adrannau 12 a 15 o Ddeddf Mannau Agored 1906 | Mannau agored a mynwentydd | Cyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol a chyngor cymuned |
| Adran 82 o Ddeddf Diwygio Deddfau Iechyd y Cyhoedd 1907 | Glan y môr | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| Adran 83 o Ddeddf Diwygio Deddfau Iechyd y Cyhoedd 1907 | Promenadau | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| Adran 81 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 | Atal niwsansau penodol | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| Adran 82 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 | Symud mater neu hylif annymunol drwy strydoedd | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| Adran 87 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 | Darparu cyfleusterau cyhoeddus | Cyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol a chyngor cymuned |

| | | | |
|----|--|--|--|
| | Adran 198 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 | Darparu marwdai ac ystafelloedd post-mortem | Cyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol a chyngor cymuned |
| 5 | Adran 223 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 | Rheoleiddio baddonau, ymolchfeydd, pyllau nofio etc | Cyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol a chyngor cymuned |
| | Adran 231 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 | Baddonau cyhoeddus | Cyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol a chyngor cymuned |
| 10 | Adran 233 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 | O ran pyllau nofio a baddonau nad ydynt o dan reolaeth awdurdod lleol; | Cyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol a chyngor cymuned |
| 15 | Adran 268 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 | Atal niwsansau mewn cysylltiad â defnyddio pebyll, faniau etc | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| | Adran 270 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 | Lletya casglwyr hopys a phersonau a gymerir ymlaen i wneud gwaith tebyg | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| 20 | Adran 75 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1961 | Ffeiriau pleser a rhinciau sglefrolio | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| | Adran 76 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1961 | Cychod neu fadau pleser glan y môr | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| | Adran 77 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1961 | Trinwyr gwallt a barbwyr | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| 25 | Adran 19 o Ddeddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd Cyhoeddus 1964 | Rheoleiddio ymddygiad personau mewn llyfrgelloedd ac amgueddfeydd a defnyddio'r cyfleusterau hynny | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| 30 | Adran 35 o Ddeddf Priffyrdd 1980 | Rheoleiddio rhodfeydd | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| 35 | Adran 114 o Ddeddf Priffyrdd 1980 | Ymddygiad personau sy'n defnyddio neu'n mynd i gyfleusterau cyhoeddus a ddarperir gan awdurdodau priffyrdd | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| | Adran 14 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 | Aciwbigo | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |

| | | | |
|----|--|--|--|
| | Adran 15 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 | Tatwio, lliwio croen yn lled-barhaol, tyllu cosmetig ac electrolysis | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| 5 | Adran 60 o Ddeddf Bwyd 1984 | Rheoleiddio ac atal niwsansau mewn marchnadoedd | Cyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol a chyngor cymuned |
| 10 | Adran 57(7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 | Defnydd o fannau parcio | Cynghorau cymuned |
| 15 | Adran 23 o Ddeddf Tai 1985 | Rheoli, defnyddio a rheoleiddio tai awdurdod lleol, y defnydd o dir a ddarperir mewn cysylltiad â thai ac mewn perthynas â thai llety awdurdod lleol | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| 20 | Adran 16 o Ddeddf Morglawdd Bae Caerdydd 1993 | Rheolaeth dda a llywodraeth o faeau mewndirol a harbyrau | Cyngor Sir (Caerdydd) |
| | Adran 2 o'r Ddeddf hon | Rheolaeth dda a llywodraeth | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| | Adran 4(1) o'r Ddeddf hon | Y pŵer i ddiddymu is-ddeddfau | Awdurdod deddfu |

RHAN 2

IS-DDEDDFAU Y CANIATEIR DYRODDI COSBAU PENODEDIG MEWN PERTHYNAS Â HWY

- 2 Mae adran 12 yn gymwys i is-ddeddfau a wnaed –
- (a) o dan y deddfiadau a restrir yng ngholofn gyntaf y tabl isod,
 - (b) mewn perthynas â'r pwnc a restrir yn ail golofn y tabl,
 - (c) gan y math o awdurdod a restrir yn nhrydedd golofn y tabl.

TABL RHAN 2

| | Y deddfiad y gwneir is-ddeddfau odano | Pwnc yr is-ddeddfau | Y math o awdurdod sy'n gwneud yr is-ddeddfau |
|----|--|--|--|
| 30 | Adran 68 o Ddeddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 | Rheoleiddio cerbydau hacnai | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| 35 | Adran 164 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1875 | Rhodfeydd cyhoeddus a thiroedd hamdden | Cyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol a chyngor cymuned |
| | Adran 6 o Ddeddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1889 | Rheoleiddio bysiau a dynnir gan geffylau | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |

| | | | |
|----|---|--|--|
| | Adrannau 12 a 15 o Ddeddf Mannau Agored 1906 | Mannau agored a mynwentydd | Cyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol a chyngor cymuned |
| 5 | Adran 82 o Ddeddf Diwygio Deddfau Iechyd y Cyhoedd 1907 | Glan y môr | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| | Adran 83 o Ddeddf Diwygio Deddfau Iechyd y Cyhoedd 1907 | Promenadau | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| 10 | Adran 18 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933 | Cyfyngiadau ar gyflogi plant | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| | Adran 20 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933 | Cyfyngiadau ar gymryd plant ymlaen neu gyflogi plant wrth farchnata ar strydoedd | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| 15 | Adran 81 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 | Atal niwsansau penodol | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| | Adran 82 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 | Symud mater neu hylif annymunol drwy strydoedd | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| 20 | Adran 87 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 | Darparu cyfleusterau cyhoeddus | Cyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol a chyngor cymuned |
| | Adran 198 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 | Darparu marwdai ac ystafelloedd post-mortem | Cyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol a chyngor cymuned |
| 25 | Adran 223 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 | Rheoleiddio baddonau, ymolchfeydd, pyllau nofio etc | Cyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol a chyngor cymuned |
| | Adran 231 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 | Baddonau cyhoeddus | Cyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol a chyngor cymuned |
| 30 | Adran 233 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 | O ran pyllau nofio a baddonau nad ydynt o dan reolaeth awdurdod lleol; | Cyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol a chyngor cymuned |
| | Adran 268 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 | Atal niwsansau mewn cysylltiad â defnyddio pebyll, faniau etc | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| 35 | Adran 270 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 | Lletya casglwyr hopys a phersonau a gymerir ymlaen i wneud gwaith tebyg | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| 40 | Adran 75 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1961 | Ffeiriau pleser a rhinciau sglefrolio | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |

| | | | |
|----|--|--|--|
| | Adran 76 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1961 | Cychod neu fadau pleser glan y môr | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| | Adran 77 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1961 | Trinwyr gwallt a barbwyr | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| 5 | Adran 19 o Ddeddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd Cyhoeddus 1964 | Rheoleiddio ymddygiad personau mewn llyfrgelloedd ac amgueddfeydd a defnyddio'r cyfleusterau hynny | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| 10 | Adran 35 o Ddeddf Priffyrdd 1980 | Rheoleiddio rhodfeydd | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| 15 | Adran 114 o Ddeddf Priffyrdd 1980 | Ymddygiad personau sy'n defnyddio neu'n mynd i gyfleusterau cyhoeddus a ddarperir gan awdurdodau priffyrdd | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| | Adran 14 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 | Aciwbigo | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| 20 | Adran 15 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 | Tatwio, lliwio croen yn lled-barhaol, tyllu cosmetig ac electrolysis | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| 25 | Adran 60 o Ddeddf Bwyd 1984 | Rheoleiddio ac atal niwsansau mewn marchnadoedd | Cyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol a chyngor cymuned |
| | Adran 57(7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 | Defnydd o fannau parcio | Cynghorau cymuned |
| 30 | Adran 23 o Ddeddf Tai 1985 | Rheoli, defnyddio a rheoleiddio tai awdurdod lleol, y defnydd o dir a ddarperir mewn cysylltiad â thai ac mewn perthynas â thai llety awdurdod lleol | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| 35 | Adran 16 o Ddeddf Morglawdd Bae Caerdydd 1993 | Rheolaeth dda a llywodraeth o faeau mewndirol a harbyrau | Cyngor Sir (Caerdydd) |
| 40 | Adran 2 o'r Ddeddf hon | Rheolaeth dda a llywodraeth | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |

ATODLEN 2
(a gyflwynwyd gan adran 20)

MÂN DDIWYGIADAU A DIWYGIADAU CANLYNIADOL

Deddf Iechyd y Cyhoedd 1875

- 5 1 Yn adran 184 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1875 (cadarnhad o is-ddeddfau) ar ôl “local authority” mewnosoder “in England”.

Deddf Mannau Agored 1906

- 2 Yn adran 15(2) o Ddeddf Mannau Agored 1906 (is-ddeddfau) ar ôl “any local authority” mewnosoder “in England”.

10 *Deddf Diwygio Deddfau Iechyd y Cyhoedd 1907*

- 3 (1) Mae Deddf Diwygio Deddfau Iechyd y Cyhoedd 1907 wedi ei diwygio fel a ganlyn.
(2) Yn adran 9 (is-ddeddfau) ar ôl “byelaws made” mewnosoder “by a local authority in England”.
(3) Yn adran 82 (is-ddeddfau ynghylch glan y môr), ar ôl y geiriau “Provided that”
15 mewnosoder “, in the case of byelaws made by a local authority in England,”.

Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949

- 4 (1) Mae Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 wedi ei diwygio fel a ganlyn.
(2) Yn adran 106 (darpariaethau atodol ynghylch is-ddeddfau) ar ôl is-adran (4)
20 mewnosoder –
“(5) This section does not apply to byelaws made under this Act by the Countryside Council for Wales.”
(3) Ar ôl adran 106 mewnosoder –

25 **“106A Supplementary provisions as to byelaws made by the Countryside Council for Wales**

- (1) Sections 3 to 19 of the Local Government Byelaws (Wales) Act 2012 shall apply to all byelaws made the Countryside Council for Wales under this Act.
(2) The confirming authority for the purposes of section 7 of the 2012 Act is the Welsh Ministers.”.
30

Deddf Iechyd y Cyhoedd 1961

- 5 (1) Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd 1961 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 75 (is-ddeddfau ynghylch ffeiriau pleser a rhinciau sglefrolio) –

(a) yn is-adran (8) ar ôl y geiriau “as respects byelaws” mewnosoder “made by a local authority in England”.

(b) ar ôl is-adran (8), mewnosoder –

5 “(9) A local authority in Wales which proposes to make a byelaw under this section must consult the appropriate representative bodies on the matters dealt with by the proposed byelaw.

10 (10) For the purposes of subsection (9), “the appropriate representative bodies” are those bodies which appear to the authority to be representative of the interests of those who carry on pleasure fairs and entertainments to which this section applies.

(11) A local authority in Wales making a byelaw in pursuance of subsection (1)(d) of this section must consult the relevant fire and rescue authority on the matters dealt with by the proposed byelaw.

15 (12) For the purposes of subsection (11) “relevant fire and rescue authority” is the fire and rescue authority under the Fire and Rescue Services Act 2004 for the area to which the byelaw applies.”.

(3) Yn adran 76(2) (is-ddeddfau ynghylch cychod neu fadau pleser glan y môr) ar ôl y geiriau “byelaws made” mewnosoder “by a local authority in England”.

20 (4) Yn adran 77(3) (is-ddeddfau ynghylch trinwyr gwallt a barbwyr) ar ôl “byelaws” mewnosoder “made by a local authority in England”.

Deddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd Cyhoeddus 1964

6 Yn adran 19(1) (is-ddeddfau mewn perthynas â llyfrgelloedd ac amgueddfeydd) ar ôl y geiriau “so made” mewnosoder “by a local authority in England”.

25 *Deddf Llywodraeth Leol 1972*

7 (1) Mae Deddf Llywodraeth Leol 1972 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 235(1) (pwerau cynghorau i wneud is-ddeddfau ar gyfer rheolaeth dda a llywodraeth etc) –

(a) hepgorer “the council of a principal area in Wales”;

30 (b) ar ôl yr ail “district” hepgorer “principal area”.

(3) Yn adran 236 (y weithdrefn etc ar gyfer is-ddeddfau) –

(a) yn is-adran (1) ar ôl “local authority” ym mhob achos mewnosoder “in England”;

(b) yn is-adran (3), hepgorer “or community”;

(c) yn is-adran (9) –

35 (i) hepgorer “or in Wales of a principal council”;

(ii) hepgorer y geiriau “or community” ym mhob achos lle y maent yn ymddangos;

(d) hepgorer is-adran (10A).

- (4) Yn adran 236B (y weithdrefn amgen ar gyfer is-ddeddfau penodol) –
- (a) yn is-adran (1)(a) ar ôl “local authority” mewnosoder “in England”;
 - (b) yn is-adran (4) –
 - (i) hepgorer paragraff (a);
 - (ii) ym mharagraff (b), hepgorer “in relation to any other byelaw,”;
 - (c) hepgorer is-adrannau (6), (10) ac (11).
- (5) Yn adran 238 (tystiolaeth o is-ddeddfau) ar ôl “local authority” mewnosoder “in England”.

Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981

- 8 (1) Mae adran 37 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (is-ddeddfau i amddiffyn gwarchodfeydd natur morol) wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Yn is-adran (5) ar ôl “byelaws under this section” mewnosoder “, other than byelaws made by the Countryside Council for Wales”.
- (3) Ar ôl is-adran (5), mewnosoder –
- “(5A) Sections 3 to 19 of the Local Government Byelaws (Wales) Act 2012 apply to byelaws made by the Countryside Council for Wales under this section, subject to such modifications (including modifications increasing the maximum fines which the byelaws may impose) as may be prescribed by regulations made by the Welsh Ministers.
- (5B) Regulations under subsection (5A) shall be made by statutory instrument which shall be subject to annulment in pursuance of a resolution of the National Assembly for Wales.”

Deddf Bwyd 1984

- 9 Yn adran 121(1) (is-ddeddfau) ar ôl “Act” mewnosoder “by a local authority in England”.

Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984

- 10 Yn adran 57(7) (is-ddeddfau ynghylch defnyddio mannau parcio) ar ôl y geiriau “Secretary of State” mewnosoder “, in the case of byelaws made by a parish council”.

Deddf Morglawdd Bae Caerdydd 1993

- 11 Yn adran 16 hepgorer is-adrannau (8), (9) a (10).

Deddf yr Amgylchedd 1995

- 12 (1) Mae paragraff 17 o Atodlen 17 (dogfennau, hysbysiadau, cofnodion, is-ddeddfau etc) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.
- (2) Yn is-is-baragraff (e) ar ôl “Act,” mewnosoder “in the case of National Park authorities in England,”

(3) Yn is-baragraff (5) ar ôl “National Park authority” mewnosoder “in England”.

Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (OS 1999/672)

13 (1) Mae Atodlen 1 (deddfiadau sy'n rhoi swyddogaethau yn cael eu trosglwyddo gan erthygl 2) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

5 (2) O dan y pennawd “Local Government Act 1972” –

(a) hepgorer y geiriau “It is directed that the functions of the Secretary of State under section 236(11) and paragraph 25 of Schedule 14 shall be exercisable by the Assembly concurrently with the Secretary of State”;

10 (b) hepgorer y geiriau “Section 238 shall have effect as if after “the Secretary of State” there were inserted “or, as the case may be, the National Assembly for Wales””.

BIL IS-DDEDDFAU LLYWODRAETH LEOL (CYMRU)

Memorandwm Esboniadol i'r Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru)

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Datganiad yr Aelod

Yn fy marn i byddai Darpariaethau'r Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru), a gyflwynwyd gennyf fi ar 28 Tachwedd 2011, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Carl Sargeant AC

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau
Yr Aelod Cynulliad sy'n gyfrifol am y Bil

28 Tachwedd 2011

Tudalen gynnwys

RHAN 1

1. Disgrifiad
2. Y Cefndir Deddfwriaethol
3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir ei chael
4. Ymgynghori
5. Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

RHAN 2 – ASESIAID EFFAITH

6. Opsiynau
7. Costau a manteision
8. Aseu Cystadleuaeth
9. Adolygu ar ôl gweithredu

ATODIAD 1 – NODIADAU ESBONIADOL

1. Disgrifiad

1.1 Mae'r Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) arfaethedig yn gweithredu cynigion Llywodraeth Cymru i symleiddio'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud a gorfodi is-ddeddfau awdurdodau lleol. Mae'r Bil yn cyflwyno gweithdrefn amgen i awdurdodau lleol ei dilyn wrth wneud nifer o is-ddeddfau. Ar gyfer yr is-ddeddfau hyn, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau ymgynghori'n lleol cyn gwneud is-ddeddf ac yn cael gwared ar y gofyniad i Weinidogion Cymru ei chadarnhau. Mae'r Bil arfaethedig hefyd yn cynnig dull amgen opsiynol, a mwy effeithlon, o orfodi drwy hysbysiadau cosb benodedig. Yn olaf, mae'r Bil hefyd yn diwygio ac yn cydgrynhoi'r darpariaethau cyfredol ar is-ddeddfau yn adrannau 235 i 238 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Cam yw hyn i gyfeiriad datblygu Llyfr Statud i Gymru ac mae'n sicrhau bod y darpariaethau deddfwriaethol allweddol ynghylch gwneud, cadarnhau a gorfodi is-ddeddfau yng Nghymru ar gael mewn un deddfiad.

2. Y cefndir deddfwriaethol

Pwnc yn Atodlen 7 i Deddf Llywodraeth Cymru 2006

2.1. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud darpariaeth ar gyfer is-ddeddfau, ac mewn perthynas â hwy, yn rhinwedd y pwnc sy'n ymwneud â phwerau a dyletswyddau awdurdodau lleol a'u haelodau a'u swyddogion o dan bennawd llywodraeth leol yn Atodlen 7, pwnc 12 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru y cymhwysedd deddfwriaethol hefyd i wneud y darpariaethau hyn yn unol ag adran 108(4),(5) a (7) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn ogystal, mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud darpariaeth ar gyfer gweithdrefn awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yng Nghymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru i wneud a gorfodi is-ddeddfau yn rhinwedd y pynciau sy'n ymwneud â cefn gwlad a mannau agored (gan gynnwys dynodi a rheoleiddio'r parciau cenedlaethol ac ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol), cadwraeth natur a safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig o dan bennawd yr amgylchedd yn Atodlen 7, pwnc 6 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

2.2. Atgynhychir Atodlen 7, pwnc 12 o Ddeddf Llywodraeth Cymru isod. Nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw.

Local Government

12

Constitution, structure and areas of local authorities. Electoral arrangements for local authorities. Powers and duties of local authorities and their members and officers. Local government finance.

“Local authorities” does not include police authorities.

Exceptions—

Local government franchise.

Electoral registration and administration.

Registration of births, marriages, civil partnerships and deaths.

Licensing of sale and supply of alcohol, provision of entertainment and late night refreshment.

Anti-social behaviour orders.

Local land charges, apart from fees.

Sunday trading.

Provisions of advice and assistance overseas by local authorities in connection with carrying on their local government activities.

2.3 Atgynhychir Adran 108 o Ddeddf Llywodraeth Cymru isod. Nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw.

Legislative Competence

- (1) Subject to the provisions of this Part, an Act of the Assembly may make any provision that could be made by an Act of Parliament.*
- (2) An Act of the Assembly is not law so far as any provision of the Act is outside of the Assembly's legislative competence.*
- (3) A provision of an Act of the Assembly is within the Assembly's legislative competence only if it falls within subsection (4) or (5).*
- (4) A provision of an Act of the Assembly falls within this subsection if –
(a) it relates to one or more of the subjects listed under any of the headings in Part 1 of Schedule 7 and does not fall within any of the exceptions specified in that Part of that Schedule (whether or not under that heading or any of those headings),
and
(b) it neither applies otherwise than in relation Wales.*
- (5) A provision of an Act of the Assembly falls within this subsection if—
(a) it provides for the enforcement of a provision (of that or any other Act of the Assembly) which falls within subsection (4) or a provision of an Assembly Measure or it is otherwise appropriate for making such a provision effective,
or
(b) is otherwise incidental to, or consequential on, such a provision.*
- (6) But a provision which falls within subsection (4) or (5) is outside the Assembly's legislative competence if—
(a) it breaches any of the restrictions in Part 2 of Schedule 7, having regard to any exception in Part 3 of that Schedule from those restrictions,
(b) it extends otherwise than in only to England and Wales,
or
(c) it is incompatible with the Convention rights of Community law.*
- (7) For the purposes of this section the question whether a provision of an Act of the Assembly relates to one or more of the subjects listed in Part 1 of Schedule 7 (or falls within any of the exceptions specified in that Part of that Schedule) is to be determined by reference to the purpose of the provision, having regard (amongst other things) to its effect in all the circumstances.*

2.4. Atgynhychir Atodlen 7, pwnc 6 o Ddeddf Llywodraeth Cymru isod. Nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw.

Environment

Environmental protection, including pollution, nuisances and hazardous substances. Collection, management and disposal of waste. Land drainage and land improvement. Countryside and open spaces (including the designation and regulation of national parks and areas of outstanding natural beauty). Nature conservation and sites of special scientific interest. Protection of natural habitats, coast and marine environment (including seabed). Biodiversity. Genetically modified organisms. Small holdings and allotments. Common land. Town and village greens. Burial and cremation [except coroners' functions].

3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir ei chael

Yr amcanion polisi a pham yr ystyrir bod angen i'r llywodraeth ymyrryd

Y broblem neu'r mater dan sylw

3.1. Roedd y Datganiad Polisi Llywodraeth Leol 'Rhannu Cyfrifoldeb', Mawrth 2007, yn cynnwys ymrwymiad o dan y pennawd "lleihau biwrocratiaeth" i ystyried cyflwyno newidiadau er mwyn symleiddio'r broses o wneud is-ddeddfau llywodraeth leol yng Nghymru, ac i ymgynghori arnynt. Roedd hynny'n cydnabod y ffaith bod y system bresennol o wneud, o gadarnhau ac o orfodi y mwyafrif o is-ddeddfau yn rhy fiwrocraidd, yn hen ffasiwn ac yn feichus.

3.2. Ym mis Mehefin 2010, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar y gweithdrefnau ar gyfer gwneud, cadarnhau a gorfodi is-ddeddfau awdurdodau lleol. Roedd hyn yn gyfle i gasglu safbwyntiau ar symleiddio'r broses is-ddeddfu a hefyd i gael adborth ar sut y mae'r broses yn gweithio ar hyn o bryd.

3.3. Mae Adran 4 ac Atodiad A o'r ddogfen hon yn ymdrin â'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw, ac maent yn taflu goleuni defnyddiol ar y broses is-ddeddfu yng Nghymru. Er nad oes ffigurau pendant ar gael, amcangyfrifir bod Gweinidogion Cymru wedi cadarnhau 4 - 5 o is-ddeddfau newydd y flwyddyn, ar gyfartaledd, dros y pum mlynedd diwethaf. Mae llawer o awdurdodau'n parhau i weithredu is-ddeddfau sydd wedi bodoli ers degawdau. Mewn un enghraifft ddiweddar, roedd awdurdod yn adolygu is-ddeddfau parciau a gyflwynwyd cyn 1976.

3.4. Mae'r angen am is-ddeddfau wedi newid dros y blynyddoedd. Erbyn hyn, mae deddfwriaeth megis y gorchmynion rheoli cŵn o dan Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 wedi disodli'r defnydd o is-ddeddfau yn y maes hwn. Mae yna nifer fawr o bwerau is-ddeddfu, fodd bynnag, sy'n parhau i gynnig dull effeithiol a hyblyg o ymdrin â gwahanol broblemau lleol. Dyma un o'r rhesymau pam y mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno'r Bil hwn, er mwyn gwneud y broses o lunio, dirymu a gorfodi is-ddeddfau yn llai beichus. Er nad oes disgwyl i nifer yr is-ddeddfau a wneir bob blwyddyn newid yn sylweddol o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig, mae'n bosibl iawn bod awdurdodau lleol wedi osgoi gwneud is-ddeddfau newydd yn y gorffennol o ganlyniad i'r broses flaenorol.

3.5. Nod y Bil yw symleiddio'r weithdrefn ar gyfer gwneud is-ddeddfau, yn bennaf drwy gael gwared ar y gofyniad i Weinidogion Cymru gadarnhau is-ddeddfau newydd penodedig. Barn Llywodraeth Cymru, a barn a gadarnhawyd yn ystod y broses ymgynghori, yw mai ychydig o werth, os o gwbl, y mae'r broses sy'n arwain at gadarnhad Gweinidogion Cymru yn ei ychwanegu at yr ystyriaethau a'r penderfyniadau y mae'n briodol eu gwneud yn lleol. Yr unig beth y mae'n ei wneud yw ychwanegu haen weinyddol arall ac arafu'r broses. Fodd bynnag, er bod hyn yn berthnasol i nifer o is-ddeddfau sy'n ymdrin â materion lleol a phenodol iawn, gall rhai is-ddeddfau megis yr is-ddeddfau amgylcheddol a'r is-ddeddfau cyflogi plant fod yn ddadleuol, gyda goblygiadau ehangach. Roedd yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn cytuno ei bod yn ddoeth

parhau i roi rôl i Weinidogion Cymru yn yr achosion hyn. Am y rheswm hwn bydd yna broses ddeuol ar gyfer creu is-ddeddfau yng Nghymru, a'u dwyn i rym, gan fod y Bil hefyd yn cadw'r weithdrefn gadarnhau gyfredol sy'n gweithio'n dda mewn perthynas â'r is-ddeddfau hynny lle penderfynir bod gofyn eu cadarnhau.

3.6. Mae'r Bil hefyd yn cynnig dull gorfodi amgen drwy hysbysiadau cosb benodedig, a'r nod yma yw cynnig dull gorfodi mwy effeithiol ac effeithlon na thrwy'r Llysoedd Ynadon. Er bod y rhai a ymatebodd i'r broses ymgynghori yn cydnabod manteision hysbysiadau cosb benodedig, roeddent hefyd yn dymuno cadw'r weithdrefn bresennol o ddefnyddio'r Llysoedd Ynadon. Mae'r Bil felly yn rhoi'r dewis i awdurdodau lleol o ddefnyddio hysbysiadau cosb benodedig er mwyn gorfodi'r is-ddeddfau hynny a restrir yn y Bil fel rhai y gellir eu gorfodi drwy hysbysiadau cosb benodedig. Gwelwyd bod llawer o awdurdodau lleol, wrth weithredu Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005, wedi manteisio ar y pŵer i gyhoeddi hysbysiadau cosb benodedig ac yn eu defnyddio'n llwyddiannus. Maent yn ymddwyn yn gyfrifol trwy ddefnyddio'r pwerau yn gywir, yn gymesur ac yn gyfreithlon, sy'n hynod bwysig.

Pwy yr effeithir arnynt?

3.7. Bydd y ddeddfwriaeth hon yn effeithio ar awdurdodau unedol, awdurdodau'r parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned a thref. Bydd y rhain yn elwa ar ddull llai biwrocraidd a mwy cymesur o wneud a gorfodi rhai is-ddeddfau. Y manteision i'r cymunedau y bydd yr is-ddeddfau'n effeithio arnynt yw y gallai hyn arwain at ymdrin â materion lleol a'r problemau y mae gofyn cyflwyno is-ddeddfau ar eu cyfer yn gyflymach, ynghyd â chyflwyno dull mwy cyson o ymgynghori cyn penderfynu cyflwyno is-ddeddf. Y fantais i Lywodraeth Cymru fydd gostyngiad bychan yn y gwaith gweinyddol sy'n gysylltiedig â chadarnhau is-ddeddfau.

Amcanion

3.8. Un o'r prif amcanion polisi yw grymuso awdurdodau lleol i berchnogi'r deddfau lleol y maent hwy yn y sefyllfa orau i'w creu. Cyfrifoldeb yr awdurdod lleol fydd sicrhau ei fod yn gweithredu o fewn ei bwerau a bod yr is-ddeddfau'n cael eu drafftio a'u gwneud yn briodol. Bydd gofyn i'r awdurdodau lleol ymgynghori'n gynnar â grwpiau y gallai'r is-ddeddf effeithio arnynt, yn ogystal â'u cymuned, os yw hynny'n berthnasol. Mae hyn yn gydnaws â swyddogaeth awdurdodau lleol o fod yn arweinwyr cymunedol a bydd yn gwella eu hymwybyddiaeth o anghenion eu cymunedau. Yr un fath ag ar hyn o bryd, mater i'r llysoedd yn y pen draw fydd unrhyw her i gyfreithlondeb is-ddeddfau a wneir o dan y weithdrefn amgen.

3.9. Cadarnhaodd yr ymgynghoriad yn 2010 nad oedd y broses o orfodi is-ddeddfau wedi bod yn arbennig o effeithiol yn y gorffennol. Un o amcanion polisi pwysig y ddeddfwriaeth hon yw darparu dull gorfodi mwy uniongyrchol drwy ddefnyddio hysbysiadau cosb benodedig. Bydd awdurdod hefyd yn gallu pennu hysbysiad cosb benodedig fel y dull gorfodi sy'n cael ei ffafrio mewn perthynas â'r is-ddeddfau hynny a restrir yn y Bil fel rhai y gellir eu gorfodi drwy hysbysiad cosb benodedig. Profwyd bod yr hysbysiadau cosb benodedig yn

ddull gorfodi effeithiol ar gyfer nifer o fân droseddau yn ogystal â bod yn ddull effeithiol o newid ymddygiad. Mae hyn mewn gwrthgyferbyniad â'r sefyllfa bresennol lle mae'r awdurdodau lleol wedi dweud nad yw'r is-ddeddfau'n cael eu gorfodi ar y cyfan o ganlyniad i'r amser a'r ymdrech anghymesur sy'n gysylltiedig â dwyn y troseddwr gerbron y llys.

3.10 Ar hyn o bryd, mae pedwar ar bymtheg o blith y ddau awdurdod ar hugain yn gweithredu prosesau hysbysiad cosb benodedig mewn perthynas ag ymddygiad sy'n creu niwsans, megis sbwriel, baeddu gan gŵn, graffiti, codi posteri'n anghyfreithlon a sŵn. O ganlyniad, nid yw'n debygol y byddai yna unrhyw gostau ychwanegol sylweddol i awdurdodau lleol o ganlyniad i fabwysiadu hysbysiadau cosb benodedig at y diben hwn.

3.11 Bydd hysbysiadau cosb benodedig hefyd yn lleddfu'r pwysau ar y Llysoedd Ynadon, a gall yr awdurdodau lleol ddefnyddio unrhyw arian a godir i wella'r broses o weinyddu a gorfodi'r is-ddeddfau. Yn ôl y ffurflenni a gesglir gan Lywodraeth Cymru bob blwyddyn, casglodd Awdurdodau Lleol Cymru gyfanswm o £116,075 yn 2010-11 drwy hysbysiadau cosb benodedig am dorri is-ddeddfau amgylcheddol, gan gynnwys taflu sbwriel.

3.12 Mae'r Bil arfaethedig hefyd yn ceisio sicrhau bod yr awdurdod, cyn gwneud is-ddeddf, yn cynnal ymgynghoriad cychwynnol gyda'r rhai y gallai'r is-ddeddf effeithio arnynt, er mwyn ystyried ai is-ddeddf yw'r ateb mwyaf priodol. Bydd hynny'n arwain at ddatganiad sy'n amlinellu'r broblem, yn rhoi crynodeb o farn y gymuned ac yn nodi'r penderfyniad a wnaed a'r rhesymeg y tu ôl i'r penderfyniad hwnnw.

Cynllun gweithredu a chyflawni manwl

3.13 Nodir prif elfennau'r ddeddfwriaeth ar wyneb y Bil. Mae yna ddarpariaeth i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol er mwyn hwyluso gweithrediad y cynigion. Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu cyhoeddi canllawiau i helpu awdurdodau i gwrdd â gofynion y Bil. Bydd dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ystyried canllawiau Gweinidogion Cymru. Bydd y canllawiau, er enghraifft, yn cynorthwyo awdurdodau lleol i gynnal ymgynghoriad priodol ac effeithiol cyn penderfynu gwneud is-ddeddf, ac o ran defnyddio hysbysiadau cosb benodedig.

Ymyrraeth y Llywodraeth

3.14 Nod is-ddeddfau yw rheoleiddio gweithgareddau ac ymddygiadau y bernir eu bod yn annerbyniol i'r graddau bod angen creu tramgwydd troseddol ar eu cyfer. Dywed awdurdodau lleol nad yw is-ddeddfau yn aml yn cael eu gorfodi o ganlyniad i'r amser a'r ymdrech anghymesur sy'n gysylltiedig â dwyn y troseddwr i'r llys. Y nod wrth gyflwyno'r cynllun hysbysiad cosb benodedig, mewn perthynas â'r is-ddeddfau hynny a restrir yn y Bil fel rhai y gellir eu gorfodi, yw cynnig dull sy'n ymateb i'r adborth a dderbyniwyd ynghylch y broses orfodi gyfredol ar gyfer is-ddeddfau a chynnig dull effeithiol o gyfyngu ar ymddygiad annerbyniol.

Risgiau/peryglon os na chaiff y ddeddfwriaeth ei gwneud

3.15 Dywedodd nifer o awdurdodau lleol eu bod yn anfodlon gwneud is-ddeddfau newydd neu ddiweddarau rhai nad ydynt yn berthnasol bellach gan y gall gymryd amser anghymesur i gael cadarnhad gan Weinidogion Cymru. Mae'n bosibl, felly, mewn perthynas â rhai is-ddeddfau y mae gofyn eu cadarnhau ar hyn o bryd, y gallai'r anfodlonrwydd hwn o ganlyniad i'r weithdrefn gyfredol ar gyfer gwneud a chadarnhau is-ddeddfau arwain at sefyllfaoedd nad ydynt yn cael eu rheoleiddio o ran iechyd a diogelwch. Mae gofyn creu deddfwriaeth sylfaenol, felly, er mwyn diwygio'r broses a'i gwneud yn haws llunio is-ddeddfau yn y dyfodol.

Sectorau i weithredu'n fwy effeithlon

3.16 Bydd y Bil yn sicrhau bod is-ddeddfau awdurdodau lleol yn dod yn ddull rheoleiddio mwy effeithiol. Dylai'r weithdrefn amgen alluogi awdurdodau lleol i ymateb yn gyflymach i faterion lleol, ac mae'r Bil yn darparu dull gorfodi mwy effeithlon. Gallai is-ddeddfau dargedu unigolion neu grwpiau o bobl. Gallent hefyd dargedu busnesau megis marchnadoedd, safleoedd difyrion, perchnogion cerbydau hacnai, ymysg busnesau eraill. Dylai'r holl grwpiau targed hyn weithredu'n fwy cyfrifol a chyda pharch at bobl eraill yn eu cymunedau o ganlyniad i is-ddeddfau sy'n berthnasol ac yn gyfredol, ac yr ymgynghorwyd arnynt.

Cwmpas tiriogaethol penodol

3.17 Mae'r Bil yn berthnasol i Gymru.

4. Ymgynghori

Pwy

4.1 Ymgynghorwyd â'r awdurdodau unedol; awdurdodau'r parciau cenedlaethol; cynghorau cymuned a thref; Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Un Llais Cymru rhwng 21 Mehefin a 17 Medi 2010. Roedd y papur ymgynghori yn gofyn am syniadau a safbwyntiau ynghylch sut i wella'r gweithdrefnau i wneud a chadarnhau is-ddeddfau awdurdodau lleol yng Nghymru, a'u gwneud yn llai biwrocraidd. Roedd y papur hefyd yn cynnwys cynigion mai hysbysiadau cosb benodedig fyddai'r dull gorfodi newydd lle byddai hynny'n briodol.

Pam

4.2 Ymgynghorwyd â'r sefydliadau uchod gan eu bod i gyd yn gyfrifol am wneud is-ddeddfau ac yn dilyn y gweithdrefnau yn adran 236 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Fe ymgynghorwyd hefyd â'r cymdeithasau sy'n eu cynrychioli gan fod ganddynt fuddiant yn y materion sy'n effeithio ar y cyrff y maent yn eu cynrychioli.

Crynodeb o'r canlyniad

4.3 Cefnogwyd y syniad o symleiddio'r broses is-ddeddfu drwy gael gwared ar yr angen am gadarnhad Gweinidogion Cymru, annog mwy o berchnogaeth leol ar y broses is-ddeddfu fel modd o ymdrin â materion lleol a chyflwyno hysbysiadau cosb benodedig fel dull gorfodi newydd. Roedd yr adborth a dderbyniwyd ar yr agweddau eraill o'r broses yn rhoi disgrifiad manwl o allu'r sectorau unigol i wneud a gorfodi is-ddeddfau; eu profiad ac asesiad o ba mor effeithiol yw is-ddeddfau fel dull rheoleiddio; rôl Gweinidogion Cymru a Lywodraeth Cymru a'r canfyddiad o'r angen am ganllawiau a chymorth. Ceir dadansoddiad manwl o'r ymatebion yn Atodiad A.

Newidiadau o ganlyniad i'r ymgynghoriad

4.4 Roedd yr ymateb i'r ymgynghoriad yn cefnogi'r cynigion a wnaed. Yn sgil y refferendwm ym mis Mawrth 2011 mae gan y Cynulliad Cenedlaethol bwerau deddfu llawn ac, o ganlyniad, ein nod yw cynhyrchu Bil sy'n llwyddo i symleiddio'r broses, yn ogystal â diwygio a chydgrynhoi rhannau o'r weithdrefn is-ddeddfau gyfredol sy'n gweithio'n dda dros Gymru. Bydd y Bil yn rhan o'r Llyfr Statud newydd i Gymru.

5. Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

5.1 Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth. Mae'r tabl canlynol yn amlinellu mewn perthynas â phob darpariaeth:

- y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo;
- ar ba ffurf y caiff y pŵer ei arfer;
- priodoldeb y pŵer a ddirprwywyd;
- y weithdrefn a gymhwysir (*cadarnhaol, negyddol, dim gweithdrefn*), os defnyddir un, a'r rhesymau pam yr ystyrir hi'n briodol.

| Adran | Rhoddir y pŵer i | Ar ffurf | Priodoldeb | Gweithdrefn / rhesymau |
|---|--------------------|-----------|--|--|
| Adran 5 (Dirymu gan Weinidogion Cymru) | Gweinidogion Cymru | Gorchymyn | Yn briodol ar gyfer gorchymyn gan fod y ddarpariaeth yn ymwneud â chamau gweinyddol mewn perthynas ag is-ddeddfau lleol anarferedig. | Y weithdrefn penderfyniad negyddol sy'n berthnasol gan y bwriedir i'r pŵer i wneud gorchymyn ddirymu a thacluso pwerau is-ddeddfau anarferedig. |
| Adran 9 (Y pŵer i ddiwygio Rhan 1 o Atodlen 1) | Gweinidogion Cymru | Gorchymyn | Yn briodol ar gyfer gorchymyn gan fod y ddarpariaeth yn ymwneud ag ychwanegu at neu dynnu oddi wrth y rhestr o ddeddfiadau y gwneir is-ddeddfau oddi tanynt yn Rhan 1 o Atodlen 1 i'r Bil, nad oes gofyn i Weinidogion Cymru eu cadarnhau. | Y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol sy'n berthnasol gan y bydd y Gorchymyn yn diwygio'r Ddeddf hon, a gallai gynnwys diwygiadau atodol i ddeddfwriaeth sylfaenol arall. |

| Adran | Rhoddir y pŵer i | Ar ffurf | Priodoldeb | Gweithdrefn / rhesymau |
|---|-------------------------|-----------------|--|--|
| Adran 12(10) (Hysbysiadau Cosb Benodedig) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Yn briodol ar gyfer rheoliadau gan fod y ddarpariaeth yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu ffurf fanwl hysbysiad cosb benodedig, os oes angen. | Y weithdrefn penderfyniad negyddol sy'n berthnasol gan fod y Rheoliadau'n ymwneud â manylion technegol a gweinyddol ynghylch ffurf yr hysbysiad yn unol â'r adran hon. |
| Adran 12(13) (Personau sy'n rhoi hysbysiadau cosb benodedig) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Yn briodol ar gyfer rheoliadau gan fod y ddarpariaeth yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gall cyngor cymuned awdurdodi person i gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig. | Y weithdrefn penderfyniad negyddol sy'n berthnasol gan fod y Rheoliadau'n ymwneud â manylion gweinyddol er mwyn cyflawni bwriad y polisi. |

| Adran | Rhoddir y pŵer i | Ar ffurf | Priodoldeb | Gweithdrefn / rhesymau |
|---|-------------------------|-----------------|--|--|
| Adran 13(3) (Swm cosb benodedig) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Yn briodol ar gyfer rheoliadau gan fod y darpariaethau yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu terfynau ar gyfer hysbysiadau cosb benodedig er mwyn sicrhau cysondeb. | Y weithdrefn penderfyniad negyddol sy'n berthnasol gan y bwriedir i'r rheoliadau hyn bennu swm yr hysbysiad cosb benodedig o fewn ystod benodedig a chyfyngu ar y graddau y gall awdurdod sy'n deddfu bennu gwahanol symiau ar gyfer gwahanol is-ddeddfau. |
| Adran 13(5) (Swm rhagosodedig ar gyfer cosb benodedig) | Gweinidogion Cymru | Gorchymyn | Yn briodol ar gyfer pŵer i wneud gorchymyn gan ei fod yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu swm rhagosodedig gwahanol. | Y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol sy'n berthnasol gan y bwriedir i'r Gorchymyn ddiwygio'r Ddeddf hon. |

| Adran | Rhoddir y pŵer i | Ar ffurf | Priodoldeb | Gweithdrefn / rhesymau |
|--|-------------------------|-----------------|--|--|
| Adran 16 (Y pŵer i ddiwygio Rhan 2 o Atodlen 1) | Gweinidogion Cymru | Gorchymyn | Yn briodol ar gyfer gorchymyn gan fod y ddarpariaeth yn ymwneud ag ychwanegu at neu dynnu oddi wrth y rhestr o ddeddfiadau y gwneir is-ddeddfau oddi tanynt yn Rhan 2 o Atodlen 1 i'r Bil, y caniateir eu gorfodi drwy hysbysiadau cosb benodedig. | Y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol sy'n berthnasol gan y bydd y Gorchymyn yn diwygio'r Ddeddf hon, a gallai gynnwys diwygiadau atodol i ddeddfwriaeth sylfaenol arall. |
| Adran 22 (Cychwyn y Ddeddf) | Gweinidogion Cymru | Gorchymyn | Yn briodol ar gyfer pŵer i wneud gorchymyn gan fod y ddarpariaeth yn ymwneud â'r dyddiad y daw i rym yn unol â phenderfyniad Gweinidogion Cymru. | Dim gweithdrefn |
| Atodlen 2, Paragraff 8(3) (Mân Ddiwygiadau a Diwygiadau Canlyniadol – Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Yn briodol ar gyfer rheoliadau gan y bydd yn galluogi darpariaethau canlyniadol yn y dyfodol o ganlyniad i'r addasiadau a gyflwynir gan y Bil. | Y weithdrefn penderfyniad negyddol sy'n berthnasol gan y bwriedir i'r rheoliadau ddisodli'r rheoliadau cyfredol a wnaed yn unol â'r weithdrefn negyddol. |

6. Aseiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)

6.1 Cwblhawyd Aseiad Effaith Rheoleiddiol yn unol â Rheol Sefydlog 26.6(vi) ar gyfer y Bil arfaethedig ac mae'n dilyn yn Adran 7.

6.2 Cynhwysir aseiad costau a manteision yn Adran 8.

RHAN 2 – ASESAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

7. Opsiynau

Effaith a chostau Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru)

Opsiwn 1 - Gwneud dim - Parhau â'r broses is-ddeddfu bresennol

7.1 Trwy wneud dim, ni fyddai modd i Lywodraeth Cymru gyflawni mewn perthynas ag un o feysydd yr ymrwymiad i leihau biwrocratiaeth a nodir yn "Rhannu Cyfrifoldeb", datganiad polisi llywodraeth leol, 2007.

7.2 Mae awdurdodau lleol wedi beirniadu'r broses is-ddeddfu bresennol am y gall cael cadarnhad Gweinidogion Cymru ar eu cyfer fod yn broses lafurys sy'n cymryd llawer o amser. Yn ogystal, gall is-ddeddfau fod yn anodd i'w gorfodi am y gall gweithredu trwy'r Llysoedd Ynadon fod yn feichus a chymryd llawer o amser.

7.3 O ganlyniad i hynny, efallai na fydd is-ddeddfau bob amser yn feganweithiau rheoleiddio mor effeithiol ag y dylent fod. Rhaid nodi y bydd yr angen i gael cadarnhad Gweinidogion Cymru yn parhau mewn rhai achosion, er enghraifft ar gyfer is-ddeddfau amgylcheddol, a all arwain at faterion dadleuol a thrafodaethau sylweddol, ac is-ddeddfau cyflogi plant, lle mae angen dull cenedlaethol cyson.

Costau a manteision

7.4 Ni fyddai'r opsiwn "gwneud dim" yn dod ag unrhyw fanteision i awdurdodau lleol, i'r cyhoedd nac i Lywodraeth Cymru. Byddai Cymru yn parhau i ddilyn y weithdrefn bresennol nad yw mwyach yn cael ei ystyried yn addas at y diben, o ystyried y capasiti diwygiedig a'r hyn a ddisgwylir gan lywodraeth leol ers cyflwyno'r Ddeddf Llywodraeth Leol ym 1972.

7.5 Awgrymodd yr ymgynghoriad yn 2010 mai anaml iawn y mae is-ddeddfau'n cael eu gorfodi, ac mai effaith mewn enw yn unig sydd iddynt fel erfyn rheoleiddio.

7.6 Yn wahanol i'r system bresennol, mae'r costau rhedeg yn debygol o ostwng yn sgil dileu'r broses gadarnhau, ac efallai y cânt eu gwrthbwysu ymhellach gan y refeniw a gynhyrchir drwy hysbysiadau cosb benodedig. Cliciwch ar y ddolen isod i weld y refeniw a gynhyrchwyd trwy'r hysbysiadau cosb benodedig a roddwyd o ganlyniad i Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005.

<http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/cleanneighbour/fixedenalty/1011/?skip=1&lang=cy>

7.7 Er y gall gweithredu hysbysiadau cosb benodedig ei gwneud yn ofynnol recriwtio, gan arwain at rai costau ychwanegol ar gyfer awdurdodau lleol, efallai y bydd hefyd yn bosibl cynnwys y broses o orfodi is-ddeddfau mewn cynlluniau

hysbysiadau cosb benodedig presennol, heb gostau ychwanegol sylweddol na phersonél ychwanegol. Mae awdurdodau lleol eisoes wedi dangos eu bod wedi bod yn gwneud defnydd cyfrifol o'r hysbysiadau cosb benodedig o dan Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005. Mae'n siŵr y byddai'r ffordd gadarnhaol y mae llawer o awdurdodau lleol wedi cofleidio'r math hwn o orfodaeth wedi arbed llawer o amser yn y llysoedd.

7.8 Rhaid pwysleisio na ddylid gweld hysbysiadau cosb benodedig fel ffordd o gynhyrchu refeniw, ond yn hytrach fel cosb sy'n annog newid mewn ymddygiad. Dylid defnyddio'r incwm a gynhyrchir i hwyluso cydymffurfiaeth â'r gyfundrefn is-ddeddfau yn gyffredinol.

Opsiwn 2 – Cyflwyno Bil Cynulliad

7.9 Caiff awdurdodau y pŵer i wneud is-ddeddfau o dan wahanol Ddeddfau Seneddol gan gynnwys Deddf Llywodraeth Leol 1972. Yr unig ffordd o ddiwygio'r broses is-ddeddfau yw drwy newid y ddeddfwriaeth sylfaenol, a fyddai'n gofyn am Ddeddf Cynulliad. Os caiff gwneud dim (Opsiwn 1) ei ddiystyru, yna cyflwyno Bil Cynulliad (Opsiwn 2) yw'r unig ddull gweithredu arall.

7.10 Byddai cyflwyno Bil yn lleihau biwrocratiaeth ar gyfer awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru, ac yn cynyddu'r berchnogaeth o is-ddeddfau gan awdurdodau lleol. Byddai'n golygu bod gan awdurdodau fwy o reolaeth dros yr amserlenni sydd eu hangen i roi eu his-ddeddfau mewn grym ac i sicrhau eu bod yn cyd-fynd ag unrhyw ofynion arbennig e.e. misoedd yr haf, digwyddiadau arbennig, ac ati.

7.11 Ar hyn o bryd, anogir ymgynghori â phartïon sydd â buddiant yn y maes yn ystod y camau cynnar o ddatblygu is-ddeddf (yn rhannol i ganfod ai is-ddeddf yw'r cam mwyaf priodol i'w gymryd mewn gwirionedd, ac yn rhannol i ymgynghori a bod yn dryloyw), ac mae'n ofynnol i swyddogion Llywodraeth Cymru ofyn am dystiolaeth o hynny yn ystod y broses gadarnhau. Byddai'r cynnig yn gwneud hwn yn ofyniad statudol, a fydd yn fanteisiol i gymunedau lleol a grwpiau buddiant ac yn sicrhau bod eu barn a'u hanghenion yn cael eu cymryd i ystyriaeth.

7.12 Byddai cyflwyno hysbysiadau cosb benodedig yn hwyluso dull amgen o orfodi is-ddeddfau. Mae dystiolaeth ar gyfer hyn eisoes ar gael o'r hysbysiadau cosb benodedig a ddefnyddir gan awdurdodau lleol o dan Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005, ar gyfer troseddau mewn perthynas â sbwriel, baeddu gan gŵn a thipio anghyfreithlon. Defnyddir y dirwyon a gesglir mewn perthynas â'r troseddau hyn i ariannu gwelliannau i'r sbectrwm cyfan o is-ddeddfau, i roi mesurau ar waith i newid ymddygiad, ac i wneud y system orfodi yn fwy effeithiol. Cliciwch ar y ddolen isod i weld y ffigurau diweddaraf mewn perthynas â hysbysiadau cosb benodedig, sy'n dangos i nifer yr hysbysiadau a roddwyd yn ystod 2010-2011 gynyddu o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol.

<http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/cleanneighbour/fixedenalty/1011/?skip=1&lang=cy>

8. Costau a manteision

8.1 O ystyried y nifer fechan o is-ddeddfau, tua 4 i 5 bob blwyddyn, sy'n cael eu cadarnhau gan Weinidogion Cymru ar hyn o bryd, rhagwelir mai isel fydd y goblygiadau cost yn sgil y Bil. Mae canfyddiadau'r ymgynghoriad a gynhaliwyd rhwng 21 Mehefin 2010 a 17 Medi 2010 yn cefnogi'r farn hon. Manylir ar y goblygiadau ariannol isod. Ceir asesiad o'r rhai a fydd o bosibl ar eu hennill ac ar eu colled, ynghyd â disgrifiad o'r effaith debygol, yn Atodiad B.

8.2 Dylid nodi ei bod yn ofynnol cynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol i ystyried y costau a'r manteision sy'n ychwanegol (h.y. cynyddol neu ymylol) i'r rheini a fyddai'n berthnasol pe na bai unrhyw gamau wedi'u cymryd.

8.3 Byddai unrhyw wariant ychwanegol o ganlyniad i newid y broses is-ddeddfu yn dod o'r cyllidebau presennol heb godi tâl ychwanegol o Gronfa Gyfunol Cymru.

OPSIWN 1: Gwneud Dim – Parhau â'r broses is-ddeddfu bresennol

COSTAU

Costau Pontio (untro):

8.4 O dan Opsiwn 1, bydd y prosesau a'r arferion presennol yn aros fel ag y maent ar hyn o bryd. Yn hynny o beth, ni fydd unrhyw gostau pontio.

Costau Blynyddol Cyfartalog (ac eithrio costau untro):

8.5 Mater i'r awdurdodau lleol yw penderfynu a yw'n briodol datblygu is-ddeddfau, ac os felly pryd. Yn eu hanfod, mae is-ddeddfau yn ymdrin â materion lleol mewn nifer o wahanol sefyllfaoedd, megis ymddygiadau sy'n peri niwsans, baddonau cyhoeddus, ffeiriau pleser ac ati. Er bod y broses statudol yr un fath, bydd y materion a gaiff eu hystyried a graddau'r ymgynghori a'r ymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid yn gwahaniaethu ac felly nid oes mo'r fath beth â phroses is-ddeddfu nodweddiadol.

8.6 Yn seiliedig ar is-ddeddf ddiweddar, yr amcangyfrif gorau o'r gost weinyddol i awdurdodau lleol yw £7000 - £9000 fesul is-ddeddf. Dyma oedd cost yr adnodd i ddrafftio'r is-ddeddf, cwblhau'r ymgynghoriad a'r hysbysiadau i'r wasg a chyflwyno'r is-ddeddf i Lywodraeth Cymru ei chadarnhau.

8.7 Yn seiliedig ar is-ddeddf diweddar, yr amcangyfrif gorau o'r gost i Lywodraeth Cymru yw £1250 fesul is-ddeddf. Dyma oedd cost yr adnoddau polisi a chyfreithiol er mwyn dwyn yr is-ddeddf drwy'r broses gadarnhau.

8.8 O dan Opsiwn 1, ni fydd y prosesau a'r arferion cyfredol yn newid, felly ni fydd yna gostau ychwanegol.

MANTEISION

8.9 Nid oes unrhyw fanteision ychwanegol o dan Opsiwn 1. Bydd y broses ar gyfer cyflwyno a chadarnhau is-ddeddfau yn parhau fel y mae ar hyn o bryd.

OPSIWN 2: Cyflwyno Bil Cynulliad

COSTAU

Costau Pontio (untro):

8.10 Bydd Opsiwn 2 yn golygu rhai costau pontio ar gyfer Llywodraeth Cymru ac, o bosibl, rhai costau pontio ar gyfer awdurdodau lleol.

- Bydd gofyn i Lywodraeth Cymru roi canllawiau i awdurdodau lleol yn amlinellu'r broses newydd. Yr amcangyfrif gorau o'r gost hon yw £1000, a fyddai'n darparu'r adnoddau i adolygu'r canllawiau cyfredol a diwygio a chyhoeddi canllawiau wedi'u diweddarau.
- Caiff awdurdodau lleol y dewis o ddefnyddio hysbysiadau cosb benodedig neu beidio. Bydd gofyn i'r awdurdodau lleol sy'n dymuno gorfodi is-ddeddfau drwy'r dull hwn wneud trefniadau priodol. Mae gan y rhan fwyaf o'r awdurdodau drefniadau ar gyfer hyn, fodd bynnag, o dan Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005. Rhagwelir y byddai unrhyw gostau ychwanegol yn gyfyngedig i hyfforddiant codi ymwybyddiaeth ar gyfer y staff presennol, ac na fyddai'r rhain yn sylweddol. Mae'n debygol y byddai hynny'n rhan o raglenni hyfforddi parhaus ac, o'r herwydd, yr amcangyfrif gorau o'r gost hon yw £500 i bob awdurdod.

8.11 O dan Opsiwn 2, byddai yna arbedion o ran adnoddau i awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru yn sgil cael gwared ar y broses gadarnhau. Pan na fyddai angen cadarnhad Gweinidogion Cymru, byddai Llywodraeth Cymru yn arbed y £1250 a nodir o dan Opsiwn 1, a'r awdurdodau lleol yn arbed swm cyfatebol.

8.12 Mae Opsiwn 2 yn gosod gofyniad statudol ar awdurdodau i ymgynghori â rhanddeiliaid ac asesu'r effeithiau cyn i is-ddeddfau newydd gael eu gwneud. Er mai argymhelliad yn unig yw y dylid ymgynghori o dan y broses bresennol, yn ymarferol disgwylir i awdurdodau ddangos bod eu bod wedi ymgynghori'n briodol cyn i Weinidogion Cymru gadarnhau is-ddeddfau. I bob pwrpas, mae Opsiwn 2 yn codeiddio'r arfer cyfredol yn hyn o beth, ac nid oes yna gostau atodol cysylltiedig. Bydd graddfa'r ymgynghori sy'n angenrheidiol wrth ddatblygu is-ddeddf yn dibynnu ar ffactorau megis y math o is-ddeddf, nifer y rhanddeiliaid a maint y mater yr ymdrinnir ag ef. Ar sail y ffigur a roddir ym mharagraff 8.6, yr amcangyfrif gorau o gost ymgynghori yw £2,000-£3,000.

8.13 Mae Opsiwn 2 hefyd yn darparu dull mwy effeithlon, ond dewisol, o orfodi drwy hysbysiadau cosb benodedig. Amcangyfrifir y byddai'r arbedion o ran cost mynd ar drywydd trosedd yn erbyn is-ddeddf drwy'r Llys Ynadon oddeutu £500 - £1000.

MANTEISION

8.14 O dan Opsiwn 2, byddai yna fanteision i awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru.

- Y brif fantais i awdurdodau lleol fyddai gostyngiad yn yr amser a gymer hi i gyflwyno is-ddeddf. Byddai hynny'n galluogi awdurdod i ymdrin â materion lleol mewn ffordd effeithiol ac amserol, yn lleihau biwrocratiaeth ac yn meithrin mwy o berchnogaeth dros gyfreithiau lleol.
- Byddai cael gwared ar y broses gadarnhau ar gyfer is-ddeddfau nad ydynt yn ddadleuol yn rhyddhau adnoddau Llywodraeth Cymru i weithio ar feysydd polisi eraill.
- Byddai'r opsiwn o Hysbysiadau Cosb Benodedig yn cael gwared ar yr angen i neilltuo adnoddau o fewn yr awdurdod lleol i baratoi datganiadau a ffeiliau erlyn, ac yn rhyddhau amser y Llysoedd Ynadon.

9. Asesu Cystadleuaeth

Sut mae'r Bil yn effeithio ar fusnesau, elusennau a/neu'r sector gwirfoddol.

9.1. Nid oes modd defnyddio'r hidl cystadleuaeth am mai prin yw'r data ar weithgareddau mewn perthynas ag is-ddeddfau; nid oes modd pennu faint o ddefnydd a wneir o is-ddeddfau diwygiedig ac i ba raddau y maent yn cael eu gorfodi; ac nid oes digon o fanylion i allu penderfynu sut y gallai'r newidiadau effeithio ar fusnesau a chystadleuaeth ac ar elusennau a'r sector gwirfoddol. Mae llawer o'r pwerau is-ddeddfu yn effeithio ar unigolion yn hytrach nag ar y sectorau a grybwyllir uchod.

9.2. Mae'n bosibl y byddai cyfran sylweddol o'r is-ddeddfau a grëwyd o dan y pwerau newydd wedi'u creu beth bynnag o dan y system bresennol pe na bai wedi ei newid. Felly mae'n bosibl y bydd effeithiau ychwanegol darpariaethau'r Bil ar fusnesau, elusennau a'r sector gwirfoddol yn rhai ymylol.

9.3. Gan ddilyn dull yn seiliedig ar risg, ymddengys yn annhebygol y bydd y darpariaethau newydd yn effeithio'n wael iawn ar gystadleuaeth am fod mesurau diogelu wedi'u cynnwys yn y Bil o ran y gofyniad i lywodraeth leol gynnal ymgynghoriad statudol ar ddechrau'r broses is-ddeddfu.

10. Adolygu ar ôl gweithredu

10.1 Er y bydd llawer o is-ddeddfau yn cael eu gwneud yn y dyfodol heb yr angen i'w cadarnhau, bydd angen cadarnhad Gweinidogion Cymru ar gyfer rhai is-ddeddfau o hyd, fel yr is-ddeddfau mewn perthynas â'r amgylchedd a chyflogi plant. Y rheswm am hyn yw y gall yr is-ddeddfau hyn fod yn ddadleuol, gyda goblygiadau ehangach yn gysylltiedig â nhw. Roedd yr ymateb i'r ymgynghoriad yn 2010 yn dangos y byddai'n fuddiol cadw rôl Gweinidogion Cymru yn yr achosion hyn. O'r herwydd, bydd angen parhau i gyflwyno'r is-ddeddfau hyn i'w craffu gan swyddogion Llywodraeth Cymru cyn iddynt geisio cadarnhad Gweinidogion Cymru ar eu cyfer.

10.2 Bydd Adrannau Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu canllawiau a modelau o is-ddeddfau i lywodraeth leol. Fel is-adran Llywodraeth Cymru sy'n arwain yn hyn o beth, yr Is-adran Democratiaeth, Moeseg a Phartneriaeth fydd yn cydlynu'r broses o ymgysylltu â llywodraeth leol i gael adborth am yr is-ddeddfau a wnaed a'r hysbysiadau cosb benodedig a gyhoeddwyd.

**Is-ddeddfau Awdurdod Lleol yng Nghymru – Papur ymgynghori
Gweithdrefnau ar gyfer creu, cadarnhau a gorfodi is-ddeddfau**

**Adroddiad ar yr ymateb i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd rhwng 21 Mehefin
a 17 Medi 2010.**

Rhagarweiniad

1. Roedd y papur ymgynghori'n nodi bwriad Llywodraeth y Cynulliad i ddiwygio gweithdrefnau is-ddeddfau ac yn amlinellu cynigion ar gyfer gwella a gwneud y gweithdrefnau ar gyfer creu a chadarnhau is-ddeddfau awdurdod lleol yng Nghymru yn llai biwrocraidd.
2. Roedd y papur hefyd yn cynnwys cynigion fel mai hysbysiadau cosb benodedig fydd y math newydd o orfodaeth yng Nghymru.
3. Yr is-ddeddfau a ystyriwyd oedd y rhai lle mai'r gweithdrefnau o dan adran 236 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2972 oedd y rhai perthnasol.
4. Cafodd y ddogfen ymgynghori ei chyflwyno i'r 22 awdurdod unedol, awdurdodau'r parciau cenedlaethol, a phob un o'r 735 o gynghorau cymuned a thref.
5. I gyd, cafwyd 48 o ymatebion a oedd yn cynnwys rhai gan 11 awdurdod lleol (cyfradd ymateb o 50%), 35 o gynghorau cymuned a thref (cyfradd ymateb o 5%); cyd-ymateb gan Gymdeithas Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru ar ran y 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol; 1 arall. Mae rhestr o'r holl ymatebwyr ar gael ar ddiwedd yr adroddiad hwn.
6. Gofynnwyd ystod o gwestiynau nid yn unig i gadarnhau barn y rhai a ymatebodd am gael proses lai biwrocraidd, gyda mwy o berchnogaeth i awdurdodau lleol (awdurdodau unedol, awdurdodau'r parciau cenedlaethol a chynghorau tref a chymuned i bwrpas yr ymgynghoriad hwn) ond hefyd i gael adborth ar sut y mae'r broses yn gweithio ar hyn o bryd.
7. Mae'r ymateb ar ffurf crynodeb wedi'i gyflwyno'n bur fanwl ac wedi'i osod allan yn ôl ymateb pob sector i'r cwestiynau oherwydd ni chafodd adborth ar greu is-ddeddfau ei gasglu o'r blaen ac, o'r herwydd, gallai fod o ddiddordeb a chymorth i bawb sydd a wnelo hwynt â hyn.

Yr ymateb i'r ymgynghoriad

(gweler Atodiad A am grynodedeb o'r ymatebion)

8. Roedd cefnogaeth sicr i symleiddio is-ddeddfau ac i gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig fel ffordd newydd o'u gorfodi.
9. Roedd yr adborth a ddaeth i law ar agweddau eraill ar y broses yn rhoi darlun manwl o gapasiti pob sector unigol i greu a gorfodi is-ddeddfau; eu

profiad a'u hasesiad o ba mor effeithiol oedd is-ddeddfau fel dull o reoleiddio; rôl Gweinidogion Cymru a Llywodraeth y Cynulliad a'r argraff bod angen canllawiau a chymorth.

10. Gofynnwyd i'r ymatebwyr dynnu sylw at unrhyw bwerau nad oedd wedi eu cynnwys yn y tabl ar dudalennau 3-6 yn y ddogfen ymgynghori. Ni dderbyniwyd unrhyw ychwanegiadau na diwygiadau.

Y camau nesaf:

11. Bydd y farn a'r sylwadau a wnaed yn ystod y broses ymgynghori hon yn cael eu hystyried pan fydd Llywodraeth y Cynulliad yn datblygu cynigion i ddiwygio gweithdrefn yr is-ddeddfau.

Atodiad A – Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

C1. Faint o is-ddeddfau mae eich awdurdod wedi eu creu neu ddiwygio yn y 5 mlynedd diwethaf?

Dywedodd ychydig dros hanner yr awdurdodau unedol a ymatebodd eu bod wedi creu neu ddiwygio is-ddeddfau yn y 5 mlynedd diwethaf.

Nid oedd Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol wedi creu na diwygio unrhyw is-ddeddfau yn y 5 mlynedd diwethaf, nac ychwaith unrhyw un o'r cynghorau tref a chymuned a ymatebodd.

C2. Yn eich profiad chi, pa mor effeithiol yw is-ddeddfau fel dull o reoleiddio?

Awdurdodau unedol:

Cafwyd ymateb cymysg i'r cwestiwn hwn. Roedd rhai yn meddwl bod is-ddeddfau yn effeithiol a bod ganddynt rôl o hyd mewn gorfodi cyfreithiau lleol, ond roedd eraill yn teimlo nad oeddent yn effeithiol. Roedd y sylw bod rhai is-ddeddfau penodol yn fwy defnyddiol na'i gilydd yn ymddangos i fod yn ategu'r farn ddiymwad mai dull o reoleiddio lleol oedd is-ddeddfau.

Dywedodd lawer o'r ymatebwyr bod angen digon o adnoddau i orfodi is-ddeddfau a bod hyn yn ffactor a oedd yn dylanwadu ar ba mor effeithiol oeddent. Soniwyd hefyd at y gwerth oedd yr heddlu yn ei roi ar is-ddeddfau i atal ymddygiad annerbyniol a phwerau'r heddlu i gyfweld tystion, a oedd yn helpu i orfodi is-ddeddfau.

Dywedodd ddau ymatebwr fod yn well ganddynt hwy ddeddfwriaeth sylfaenol gan ei bod yn helpu i sicrhau cysondeb wrth orfodi a phroses fwy agored i breswylwyr a busnesau.

Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol:

Y profiad cyffredin oedd bod is-ddeddfau yn eithaf aneffeithiol. Roedd yn golygu proses afrwydd i'w creu, a hefyd i'w gorfodi.

Cynghorau Tref a Chymuned:

Lleisiodd nifer o gynghorau'r farn bod is-ddeddfau ond yn effeithiol os oeddent yn ddigon hysbys ac yn cael eu gorfodi'n gywir a chafwyd enghreifftiau gan rai o drafferth eu gorfodi, er enghraifft y cyfyngiadau cyllid ac adnoddau.

C3. Beth yw eich barn am y broses bresennol o greu a chadarnhau is-ddeddfau?

Awdurdodau unedol:

Roedd yr ymatebwyr i gyd bron yn teimlo bod y broses bresennol o greu a chadarnhau is-ddeddfau yn araf, yn fiwrocraidd ac yn anodd i'w defnyddio. Ond nid oedd un ymatebwr yn gweld hyn fel rhwystr na rheswm dros oedi gan feddwl tybed pam oedd Llywodraeth y Cynulliad yn gwahodd pobl i herio'r broses bresennol.

Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol:

Yr ymateb oedd bod y broses braidd yn afrwydd ac efallai'n rhy gostus ac yn cymryd gormod o amser ac ymdrech.

Cynghorau Tref a Chymuned:

Teimlai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod y broses yn rhy hir a biwrocraidd. Dywedodd un ymatebwr nad oedd yn hawdd dod o hyd i wybodaeth na chanllawiau ar greu is-ddeddfau ac nad oedd unrhyw wybodaeth ar wefan Llywodraeth y Cynulliad na gwefannau'r awdurdodau unedol.

Teimlai rhai ei bod yn bwysig bod Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i wneud ei rhan a dywedodd un y byddai hyn yn cynnal cydlyniant a pharhad.

C4. A ydyw cadarnhau is-ddeddfau gan Weinidogion Cymru yn ychwanegu unrhyw werth at y broses o greu is-ddeddfau? Os ydyw, ym mha ffordd?

Awdurdodau unedol:

Dyweddodd y rhan fwyaf nad oedd y broses lle oedd Gweinidogion Cymru'n cadarnhau is-ddeddfau yn ychwanegu unrhyw werth. Y cwbl yr oedd yn ei wneud oedd ychwanegu lefel arall o weinyddu, ac achosi oedi.

I'r gwrthwyneb, dywedodd un ymatebwr fod cadarnhad gan Weinidogion Cymru yn ychwanegu gwerth oherwydd bod is-ddeddfau'n rhoi sancsiynau troseddol a dywedodd un arall fod cyfiawnhad dros gadarnhau pan oedd is-ddeddfau dadleuol neu gymhleth yn cael eu cyflwyno.

Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol:

Yr ymateb oedd ei fod yn ychwanegu dimensiwn dilysu pwysig – ategiad ychwanegol – yn ogystal â chraffu ar gyfer proses, drafftio ac arferion da, ayb.

O leiaf, roedd yn lleihau'r risg bod is-ddeddf yn aneffeithiol am ei bod wedi'i drafftio'n wael.

Cynghorau Tref a Chymuned:

Dywedodd ychydig dros draean o'r cynghorau tref a chymuned a ymatebodd ei fod yn ychwanegu gwerth at y broses. Rhoddwyd amrywiaeth o resymau, gan gynnwys ei fod yn chwalu rhwystrau ac yn darparu'r elfen graffu angenrheidiol; yn gwarchod rhag drafftio is-ddeddfau yn wael; yn rhoi gwrthrychedd; yn ychwanegu statws drwy fod yn rhan o broses llunio cyfraith Llywodraeth y Cynulliad; yn ategu'r broses a gâi ei gweinyddu gan yr awdurdod lleol; yn hanfodol i gynnal cysondeb wrth gymhwyso is-ddeddfau; yn sicrhau mai dyma'r dull rheoleiddio priodol ar gyfer y materion dan sylw a'u bod yn cydymffurfio gyda deddfwriaeth. Dywedodd un y dylai'r penderfyniad dros greu is-ddeddf orwedd gyda'r awdurdod lleol. Fodd bynnag, dylai un o Weinidogion Cymru chwarae rôl farnwrol os oedd unrhyw broses apêl yn codi.

Nid oedd tua un o bob pump o'r ymatebwyr yn cytuno bod cadarnhad Gweinidogion Cymru yn ychwanegu gwerth. Dywedodd un o'r rhain ei fod ond yn sicrhau bod is-ddeddf yn dilyn y model presennol o is-ddeddf, gan awgrymu y gellid disodli'r 'cadarnhad' drwy wneud unrhyw ymadawiad o'r model yn 'ultra vires'.

C5. A oes unrhyw is-ddeddfau y gallwch eu nodi lle dylid cadw rôl Llywodraeth Cynulliad Cymru? Os felly, pam?

Awdurdodau unedol:

Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr "na" a dywedodd un pe bai is-ddeddf yn cael ei chreu y tu allan i bwerau'r awdurdod lleol, bod yna broses herio ar gael drwy'r llysoedd.

Yr eithriadau oedd is-ddeddfau a oedd yn gwarchod Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac a oedd yn cynnwys ystyriaethau amgylcheddol eraill a oedd, yn aml, gyda goblygiadau neu effaith ehangach nag ar lefel leol;

Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol:

Roedd barn y Parciau'n gymysg, gan amrywio o ddim barn i agwedd fwy cyffredinol bod yna rinwedd mewn sicrhau bod Llywodraeth y Cynulliad yn cadw ei rôl yng nghyswllt pob is-ddeddf.

Cynghorau Tref a Chymuned:

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn nad oedd angen cadw rôl Llywodraeth y Cynulliad. Yr eithriadau y cyfeiriwyd atynt oedd bod gan Lywodraeth Cynulliad Cymru rôl bwysig i'w chwarae fel dyfarnwr mewn anghydfod lle oedd gwrthdaro gyda'r gymuned leol, a lle oedd angen dull cenedlaethol cyson fel gydag is-ddeddfau'n ymwneud â phlant.

Teimlai rai y dylid cadw rôl Llywodraeth y Cynulliad. Ar y cyfan, pur anaml oedd angen is-ddeddfau newydd ar gynghorau tref a chymuned ac, felly, gallai dal fod yn werth chweil cadw rôl ddilysu ar gyfer pawb.

C6. A fyddai unrhyw werth mewn gweld Llywodraeth Cynulliad Cymru'n parhau ei rôl o ddarparu canllawiau? Os byddai, a ellid gwella ar y canllawiau presennol ar greu is-ddeddfau?

Awdurdodau unedol:

Roedd pawb yn cytuno bod angen i Lywodraeth y Cynulliad barhau i ddarparu canllawiau. Y rhesymau a roddwyd oedd bod hyn yn symleiddio'r broses fabwysiadu; yn sicrhau cysondeb ymhlith yr awdurdodau lleol; yn cefnogi anghenion y cynghorau tref a chymuned; roedd yn ddefnyddiol gallu siarad gyda swyddogion Llywodraeth y Cynulliad am sut i ddehongli'r canllawiau ysgrifenedig neu am is-ddeddfau enghreifftiol neu fodel.

Roedd y gwelliannau a awgrymwyd i'r broses bresennol yn cynnwys bod angen addasu canllawiau ac is-ddeddfau enghreifftiol ar gyfer Cymru; roedd angen diweddarau'r rhain yn gyson a sicrhau eu bod ar gael ar wefan Llywodraeth y Cynulliad; bod angen hyrwyddo arferion gorau a chynnwys cyngor ar atal achosion posibl lle gallai is-ddeddfau gael eu herio.

Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol:

Ystyriwyd bod canllawiau Llywodraeth y Cynulliad yn darparu swyddogaeth bwysig o ran hyrwyddo cysondeb ac ansawdd is-ddeddfau.

Cynghorau Tref a Chymuned:

Ymateb cymysg. Rhai ymatebion negyddol a rhai "dim ateb". Fodd bynnag, dywedodd fymryn dros hanner yr ymatebwyr fod yna werth o hyd mewn cadw rôl Llywodraeth y Cynulliad o ran darparu canllawiau. Roedd rhai o'r rhesymau a roddwyd yn cynnwys bod Llywodraeth y Cynulliad yn cynnig mesur o ddiogelwch i sicrhau bod is-ddeddfau yn deg; roedd yn sicrhau cydraddoldeb wrth weithredu a chreu is-ddeddfau; byddai dim canllawiau gan Lywodraeth y Cynulliad yn golygu y byddai angen i awdurdodau a chynghorau lleol gynyddu eu capasiti eu hunain gan ychwanegu'n sylweddol at gostau ac arwain at ddyblygu diangen.

Roedd rhai o'r gwelliannau a awgrymwyd yn cynnwys y gellid cyflwyno canllawiau drwy Un Llais Cymru, Y Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac y dylent gynnwys is-ddeddfau enghreifftiol; y byddid yn disgwyl ymateb cynt gan Lywodraeth y Cynulliad; y dylid eu cynnwys yn y sesiynau hyfforddi i gynghorwyr tref a chymuned newydd; y dylid eu rhoi ar wefan Llywodraeth y Cynulliad; ac y dylid eu hymgorffori yn y llawlyfr i gynghorwyr.

Gofynnwyd hefyd am ganllawiau ar achosion lle oedd anghydfod yn codi ynghylch cynigion ar gyfer is-ddeddfau, ac apeliadau.

**C7. A fyddai rhyw fath o fforwm meithrin gallu a gwybodaeth yn fuddiol?
Os byddai, pwy fyddai'r corff mwyaf effeithiol i ddarparu hyn?**

Awdurdodau unedol:

Roedd y mwyafrif o blaid rhyw fath o feithrin gallu neu rannu gwybodaeth er bod cwpl o'r ymatebwyr yn teimlo na fyddai angen hyn. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru / Un Llais Cymru yn cyd-gysylltu defnydd mwy effeithiol o is-ddeddfau newydd ar sail Cymru Gyfan; bod Cymdeithas yr Ysgrifenyddion Cyngor a Thwrneiod Cymru (a oedd yn cael eu gweld fel y rhai a oedd, mae'n debyg, â'r profiad ymarferol gorau o greu is-ddeddfau) i gyd-fynd â rôl llunio canllawiau Llywodraeth y Cynulliad; gwasanaeth ar y we i'w redeg gan Lywodraeth y Cynulliad; porth rhyngwyd i'w sefydlu ar y cyd rhwng awdurdodau unedol a chynghorau tref a chymuned (y costau i'w had-dalu gan Lywodraeth y Cynulliad).

Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol:

Er bod croeso'n gyffredinol i'r egwyddor gyffredinol o sefydlu fforwm rhannu gwybodaeth, byddai angen mwy o wybodaeth am yr awgrym arbennig hwn cyn y gallai awdurdodau'r parciau cenedlaethol ei gyd-gefnogi.

Cynghorau Tref a Chymuned:

Roedd llawer yn meddwl bod fforwm neu ryw fath o feithrin gallu yn syniad da. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys sioeau teithiol rhanbarthol, seminarau, cyfleoedd i rwydweithio; creu cronfa ddata gyda chynghor arbenigol a chymorth ar amrywiol bynciau cyfreithiol; gweithdai i gynghorau tref a chymuned ym mhob ardal awdurdod lleol neu ar lefel ranbarthol; fforwm gwybodaeth ar-lein; drwy'r cyrff cenedlaethol Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Cymru; adran gyfreithiol y cynghorau sir a thrwy raglen hyfforddiant Un Llais Cymru;

C8. A ddylai awdurdodau unedol chwarae rhyw fath o rôl yng nghyswllt is-ddeddfau sy'n cael eu creu gan gynghorau tref a chymuned? Os dylent, beth ddylai'r rôl yma fod?

Awdurdodau unedol:

Roedd yr ymatebwyr yn cydnabod nad oedd gan y rhan fwyaf o gynghorau cymuned, mae'n debyg, ddigon o gapasiti i greu eu his-ddeddfau eu hunain.

Roedd y sylwadau gan yr awdurdodau unedol yn cynnwys: y goblygiadau adnoddau tebygol y byddai'n rhaid i awdurdodau unedol eu hystyried; pe bai'n dod yn amlwg bod mwy nag un cyngor cymuned yn ardal yr awdurdod lleol am greu is-ddeddf debyg, gellid efallai osgoi dyblygu drwy i'r awdurdod unedol greu is-ddeddf ar gyfer yr ardal gyfan; pe bai apeliadau yn erbyn is-ddeddfau gan gynghorau cymuned yn cael eu cyfeirio at awdurdodau unedol, byddai hyn efallai'n cael ei weld i fod yn amhriodol pan fo apeliadau yn erbyn awdurdodau unedol yn cael eu cyfeirio at Lywodraeth y Cynulliad; byddai rôl yr awdurdod unedol yn sicrhau proses unffurf a chysondeb.

Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol:

Roeddent am adael hwn i gynghorau tref a chymuned wneud sylwadau arno.

Cynghorau Tref a Chymuned:

Consensws pendant bod angen cynnwys yr awdurdodau unedol. Roedd y rhesymau a roddwyd gan yr ymatebwyr yn cynnwys y lefel uwch o arbenigedd ar lefel awdurdod unedol oherwydd yr adrannau cyfreithiol pwrpasol a'u bod yn gallu darparu cymorth TG. Cyfeiriwyd hefyd at rôl oruchwylio. Awgrymwyd y dylai awdurdodau unedol ddarparu cyngor cyfreithiol, canllawiau a fetio i sicrhau proses unffurf a chysondeb.

Awgrymodd rai ymatebwyr y dylai awdurdodau unedol a chynghorau tref a chymuned weithio mewn partneriaeth, gan gyrchu tuag at nod cyffredin ac y dylai cynghorau tref a chymuned helpu awdurdodau unedol drwy ymgynghori gyda chymunedau; darparu gwybodaeth am y gwahaniaeth rhwng y gwahanol fathau o gymunedau, e.e. trefol a gwledig; ac y dylid rhannu adnoddau wrth orfodi is-ddeddfau. Gellid defnyddio siarteri yn sail ar gyfer cydweithrediad a chyd-gymorth o'r fath.

Roedd yna hefyd rai a ddywedodd y dylid parhau gyda'r broses ymgynghori bresennol a oedd yn cael ei defnyddio gan awdurdodau unedol ac roedd cwpl o ymatebwyr yn teimlo mai awdurdodau unedol ddylai wneud yr is-ddeddfau.

C9. Pa ymgynghori ydych yn ei wneud ar hyn o bryd cyn ac ar ôl creu is-ddeddf?

Awdurdodau unedol:

Dywedodd yr awdurdodau unedol fod ganddynt brosesau ymgynghori a rhestri cysylltu gyda chyrff ymgynghori, e.e. y cyhoedd, rhai sydd wedi eu hethol i gynrychioli cynghorau, cynghorau tref a chynghor; fforwm mynediad lleol; busnesau lleol; grwpiau budd arbennig; yr heddlu, cyrff masnach; fforymau dinasyddion; awdurdodau statudol. Soniwyd hefyd am wefannau'r cynghorau a'r broses o ymgynghori ar y we.

Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol:

Nid oedd unrhyw is-ddeddf wedi cael ei gwneud yn y 5 mlynedd diwethaf. Byddem yn ceisio cydymffurfio â chanllawiau'r llywodraeth wrth wneud is-ddeddfau.

Cynghorau Tref a Chymuned:

Nid oedd unrhyw is-ddeddf wedi cael ei gwneud yn y 5 mlynedd diwethaf.

C10. A ydyw'r broses a ddisgrifir uchod yn darparu trefniadau priodol ar gyfer ymgynghori gyda grwpiau budd a chymunedau lleol? A oes unrhyw fesurau pellach a fyddai'n ddefnyddiol i ymgynghori gyda phobl leol?

Awdurdodau unedol:

Roedd y sylwadau'n amrywio rhwng "trefniadau boddhaol" ac awgrymiadau ynghylch cael trefniadau eraill. Roedd y rhain yn cynnwys cael gofyniad ffurfiol i gynnal cyfarfodydd cyhoeddus er mwyn ymgynghori'n fwy trylwyr ar lefel leol; y mathau o gyrff ymgynghori i ddibynnu ar y math o ymgynghoriad, e.e. Cyngor Cefn Gwlad Cymru ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig neu Ymddiriedolaethau Iechyd ar gyfer is-ddeddfau Iechyd a gwasanaethau cymdeithasol; y dylid casglu rhestr safonol o gyrff ymgynghori, e.e. grwpiau budd lleol a chymunedol ynghyd ag awdurdodau lleol, ond y dylid hefyd ystyried bod angen cynnwys preswylwyr lleol.

Soniwyd hefyd am y defnydd o wefan cyngorau sir / bwrdeistref sirol i hysbysu'r cyhoedd ac i roi adborth ar-lein.

Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol:

Derbyniwyd sylwadau bod y canllawiau presennol yn ddigonol.

Cynghorau Tref a Chymuned:

Dim llawer o ymateb i'r cwestiwn hwn – yn unol ag ymateb i gwestiwn 9. Gwnaed cwpl o awgrymiadau – gwneud defnydd o fforwm cyngorau cymunedol a bod grwpiau budd yn cael eu hysbysu drwy gyswllt uniongyrchol.

C11. A ddylid parhau i hysbysebu is-ddeddfau mewn papurau newydd lleol? A oes unrhyw dulliau mwy effeithiol o'u hysbysebu?

Awdurdodau unedol:

Roedd y rhan fwyaf o'r farn y dylid parhau i hysbysebu is-ddeddfau mewn papurau newydd lleol. Mae'r cyhoedd yn dal i ddarllen hysbysiadau cyhoeddus ac roedd hysbysebion o'r fath yn dangos bod yr awdurdod unedol wedi ceisio cyrraedd cynulleidfa ehangach.

Fodd bynnag, oherwydd y dirywiad yn y nifer sy'n darllen papurau newydd lleol dros y blynyddoedd diwethaf, awgrymwyd mathau eraill o gyfryngau i gyd-fynd â'r wasg leol – gwefan y cyngor ei hun; papur newydd di-dâl y cyngor; hysbysfyrddau lleol; cysylltu'n uniongyrchol gyda grwpiau penodol a fyddai efallai'n cael eu heffeithio.

Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol:

Yr ymateb oedd bod hysbysebu mewn papurau newydd yn wrthrychol ac yn cynnig y siawns orau, ar y cyfan, o gyrraedd y nifer fwyaf o bobl. Fodd bynnag, dylid defnyddio dulliau eraill (electronig) i gyd-fynd â hyn.

Cynghorau Tref a Chymuned:

Roedd eu hanner yn cytuno. Dim sylw gan tua thraean y rhai a ymatebodd. Roedd mathau eraill o gyfryngau a awgrymwyd yn cynnwys cyfarfodydd cyhoeddus, gwefannau, hysbysfyrddau lleol; cofnodion cyfarfodydd; cylchlythyrau cymunedol; dulliau cyswllt uniongyrchol o ganlyniad i ymchwil i'r effaith ar grwpiau penodol;

C12. A oes achos dros gael trefniadau ar gyfer cyfeirio anghydfod ynghylch cynigion is-ddeddfau i Lywodraeth Cynulliad Cymru os oes gwrthwynebiad sylweddol i is-ddeddf arfaethedig?

Awdurdodau unedol:

Roedd yna gytundeb y dylid cyfeirio anghydfod ynghylch is-ddeddfau i Lywodraeth Cynulliad Cymru, ond dim ond os a lle oedd gwrthwynebiad sylweddol. Roedd yna farn na fyddai'n ddymunol cymhlethu neu oedi'r broses yn ormodol ac efallai mai system o gyflwyniadau ysgrifenedig fyddai orau. Dywedodd un ymatebwr mai'r awdurdod unedol yn unig ddylai ddelio gyda phob ac unrhyw is-ddeddf.

Lleisiwyd y farn hefyd y byddai croeso i unrhyw system a fyddai'n rhwystro achosion costus o herio drwy'r llysoedd.

Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol:

Y farn oedd bod yna achos cryf dros gyfeirio unrhyw anghydfod ynghylch cynigion is-ddeddfau at Lywodraeth y Cynulliad. Roedd yn ymddangos i fod yn opsiwn synhwyrol.

Cynghorau Tref a Chymuned:

Roedd mwy na'u hanner yn cytuno. Dywedodd ddau o'r ymatebwyr y dylid cyfeirio unrhyw anghydfod at yr awdurdod unedol.

C13. A allai awdurdodau neu gyrff eraill neu ran arall o'r awdurdod sy'n gwneud is-ddeddfau berfformio'r rôl hon?

Awdurdodau unedol:

Roedd consensws ymateb nad oedd hyn yn gynnig a allai weithio ac mai Llywodraeth y Cynulliad oedd y corff gorau i ddelio gyda hyn i sicrhau cysondeb.

Roedd y sylwadau amrywiol yn cynnwys y farn na fyddai awdurdod arall yn cael ei weld i fod yn ddigon annibynnol i basio barn am ei gyd-awdurdodau; byddai yna oblygiadau adnoddau i awdurdodau a fyddai'n gorfod perfformio'r rôl hon; dylai awdurdod unedol fod yn gallu gwrando apêl yn erbyn cyngor cymuned; dylai craffu mewnol gan yr awdurdod unedol fod yn ddigon.

Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol:

Na, oni bai fod corff hollol annibynnol yn cael ei sefydlu i'r pwrpas hwn.

Cynghorau Tref a Chymuned:

Ymateb cymysg. Roedd rhai o blaid Llywodraeth y Cynulliad ac eraill o blaid awdurdodau unedol. Dywedodd rhai y dylai Llywodraeth y Cynulliad gael y gair olaf os na fyddai'n bosibl datrys anghydfod. Dywedodd eraill na fyddai'n briodol pe bai awdurdodau eraill neu ran arall o'r broses creu is-ddeddfau yn perfformio'r rôl hon. Corff annibynnol ddylai ddelio gydag apeliadau.

C14. A ddylid diwygio'r trefniadau ar gyfer gorfodi is-ddeddfau, fel na fyddent mwyach yn destun achosion yn y Llysoedd Ynadon, ond yn hytrach yn agored i hysbysiadau cosb benodedig?

Awdurdodau unedol:

Roedd bron yr holl ymatebwyr o blaid yr awgrym hwn. Roedd eu sylwadau'n cynnwys y byddai hyn yn ffordd fwy effeithiol o orfodi ac yn haws i'w deall, ac y byddai'n ysgafnu'r pwysau ar y system llysoedd; roedd yn ymddangos i fod yn gweithio'n dda wrth orfodi deddfwriaeth arall. Lleisiwyd barn hefyd y dylid cyflwyno cosbau penodedig yn ychwanegol at erlyn drwy'r llysoedd.

Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith y byddai efallai angen mwy o adnoddau i gyflwyno a gorfodi cosbau penodedig. Codwyd y cwestiwn a fyddai cynghorau'n gallu cadw incwm o'r ffynhonnell hon.

Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol:

Byddent, byddai hyn yn help ac er budd cyhoeddus.

Cynghorau Tref a Chymuned:

Ymateb cymysg – roedd ymhell dros hanner yr ymatebwyr o blaid. Ond roedd rhai hefyd yn cymhell pwyll, gyda phryderon ynghylch yr adnoddau ychwanegol fyddai eu hangen i orfodi cosbau penodedig yn effeithiol, gan gynnwys y broblem o ddelio gyda rhai oedd yn gwrthod talu dirwyon. Roedd rhai am gadw'r opsiwn o ddefnyddio'r Llysoedd Ynadon ac roedd un ymatebwr yn galw am drafodaeth ehangach ar y cynigion, i gynnwys aelodau o Blismona ein Cymunedau Gyda'n Gilydd (PACT).

C15. Sut y gellir codi ymwybyddiaeth o'r is-ddeddfau sydd mewn grym mewn mannau agored heb wneud strydoedd yn fwy anniben?

Awdurdodau unedol:

Dywedodd bawb fod angen rhyw fath o arwyddion ar y stryd i sicrhau bod pawb yn y gymuned, gan gynnwys ymwelwyr i'r ardal, yn cael eu hysbysu. Roedd hyn yn un o'r gofynion hanfodol os oedd is-ddeddfau i gael eu gorfodi'n llwyddiannus. Gellid gwneud yr arwyddion hyn yn llai a / neu yn fwy deniadol. I

gyd-fynd â'r arwyddion, gellid rhoi cyhoeddusrwydd ar wefannau cynghorau, cylchlythyrau, papurau newydd lleol, arddangosfeydd mewn adeiladau cyhoeddus ayb.

Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol:

Mae hyn yn fater pwysig i Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol. Mae ymateb Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi'i ddyfynnu yma: Roedd Parc Arfordir Penfro yn gryf o'r farn bod arddangos is-ddeddfau yn eu ffurf lawn yn ddifrifol andwyol, yn enwedig i dirluniau a thir amwynder o werth uchel. Byddent yn croesawu cydnabod nad oes angen i orfodi olygu bod yn rhaid atgynhyrchu'r is-ddeddf ar y safle – yn amlwg, mae angen i'r is-ddeddfau llawn fod ar gael mewn lle canolog priodol yn rhywle, a / neu ar wefannau, ond byddai eglurder ynghylch nad oedd angen iddynt gael eu harddangos, er enghraifft, ym mhob un o'r amryw bwyntiau mynediad, yn ddefnyddiol iawn. Dylai hyn fynd law yn llaw gyda chydabod na fyddai awdurdod unedol yn erlyn mewn amgylchiadau lle nad oedd person yn ymwybodol o fodolaeth yr is-ddeddf. Yn yr amgylchiadau hyn, dylai hysbysu'r cyhoedd (efallai drwy gyfeirio at hysbysiad symudol wedi'i gyflwyno gan Warden ayb) a rhoi rhybudd priodol fod yn rhagofynion cyn gorfodaeth ffurfiol.

Fodd bynnag, roedd yna reswm arall dros y dull y dadleuir drosto uchod. Mae mwy o ymwybyddiaeth fel arfer yn deillio o orfodi effeithiol, nid lleoliad yr hysbysiad. Felly mae angen cael digon o adnoddau yn eu lle i blismona is-ddeddfau unwaith y deddfir hwynt.

Cynghorau Tref a Chymuned:

Yn cytuno na ellid osgoi arwyddion stryd ac arwyddion mewn mannau agored, ond y gellid eu gosod mewn ffordd oedd yn gydnaws â'u hamgylchoedd, ac wedi eu dylunio'n dda a'u lleoli'n ofalus.

Roedd dulliau eraill o gyfathrebu a awgrymwyd yn cynnwys papurau newydd gyda manylion y dirwyon, hysbysiadau gyda llythyrau blynyddol yn hawlio'r dreth gyngor, defnyddio hysbysfyrddau cyhoeddus, gwefannau cynghorau, hysbysfyrddau i ymwelwyr, cynlluniau pentref a chymuned, hysbysfyrddau mewn llyfrgelloedd, ymgyrchoedd ymwybyddiaeth lleol, taflenni drwy'r post ac ar y radio.

C16. A ddylai is-ddeddfau newydd gynnwys amserlen ar gyfer adolygu? Beth ddylai'r amserlen fod?

Awdurdodau unedol:

Roedd y rhan fwyaf yn gytûn y dylid cael amserlen gan awgrymu cyfnod yn amrywio rhwng 12 mis a 10 mlynedd. Tynnwyd sylw at y capasiti adnoddau a chyllid oedd ei angen i gyflawni'r adolygiadau hyn ac roedd rhai o'r farn y dylai'r amserlen fod yn hyblyg. Teimlai un o'r ymatebwyr y byddai'n rhoi baich diangen ar awdurdodau ar adeg pan oedd toriadau i'w cyllid yn digwydd.

Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol:

Roedd yn ymddangos yn rhesymol. Efallai pob deng mlynedd. Ni ddylai'r broses adolygu fod mor llafurus â'r broses o sefydlu'r is-ddeddfau yn y lle cyntaf.

Cynghorau Tref a Chymuned:

Roedd barn yr ymatebwyr yn amrywio rhwng 12 mis a 10 mlynedd.

C17. A ydych o blaid symleiddio'r gyfundrefn is-ddeddfau mewn ffordd debyg i'r hyn a ddisgrifir yn y ddogfen ymgynghori?

Awdurdodau unedol:

Roedd tua 90% o'r ymatebwyr o blaid symleiddio yn y ffordd a ddisgrifiwyd yn y ddogfen ymgynghori. Roedd sylwadau'n amodi hyn yn cynnwys y farn na fyddai diwygio'r drefn yn sicrhau newidiadau oni bai fod digon o adnoddau i orfodi'r is-ddeddfau yn eu lle. Gydag is-ddeddfau dadleuol a rhai sy'n cael effaith y tu allan i'r ardal leol, efallai y byddai dal angen rhywfaint o fewnbwn gan Lywodraeth y Cynulliad.

Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol:

Ie, yn amodol ar sylwadau blaenorol yn eu hymateb.

Cynghorau Tref a Chymuned:

Roedd bron i dri chwarter yr ymatebwyr o blaid.

C18. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y gofod hwn i ddweud amdanynt.

Awdurdodau unedol:

Dyweddodd ddau ymatebwr fod gan is-ddeddfau rôl ddefnyddiol i'w chwarae mewn ceisio datrys materion a phroblemau lleol. Fodd bynnag, roedd angen i'r broses o greu, cymeradwyo a gorfodi fod yn fwy effeithiol. Pe bai'r broses yn cael ei symleiddio a'r angen i gadarnhau'n cael ei ddileu, er mwyn sicrhau bod is-ddeddf yn ddilys, bod angen yr is-ddeddf a'i bod yn ffit i'w phwrpas, awgrymwyd bod angen cynnwys prosesau ac archwiliadau a chydbwysedd yng nghanllawiau Llywodraeth y Cynulliad.

Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol:

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi tynnu sylw at rai materion ymarferol ynghylch gorfodi, yn benodol y byddai'n ddymunol cael pwerau hollol ddiamwys wrth ymchwilio i achosion posibl o dorri is-ddeddfau lle byddai angen i berson roi ei enw a'i gyfeiriad cywir, a bod sancsiynau priodol ar gael pe na byddai pobl yn gwneud hynny. Awgrymwyd hefyd y byddai pŵer clir i

dynnu lluniau'r gweithgareddau troseddol, a'r bobl sy'n eu cyflawni, yn ddefnyddiol dros ben.

Rhestr o'r ymatebwyr:

(nid yw'r rhai a oedd yn dymuno bod yn ddiennw wedi'u cynnwys)

Awdurdodau unedol:

- Blaenau Gwent
- Caerdydd
- Caerffili
- Conwy
- Sir Ddinbych
- Sir y Fflint
- Castell-nedd Port Talbot
- Abertawe
- Torfaen
- Wrecsam

Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol

Cyd-ymateb gan:

- Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Cynghorau Tref a Chymuned

- Cyngor Tref Abergele
- Cyngor Cymuned Cwm Aber
- Cyngor Tref y Coed Duon
- Cyngor Tref Caerffili
- Cyngor Tref y Bont-faen a Llanfleiddan
- Cyngor Tref Dinbych
- Cyngor Cymuned Henllanfallteg
- Cyngor Cymuned Henllys
- Cyngor Cymuned Hirwaen a Phenderyn
- Cyngor Tref Treffynnon
- Cyngor Cymuned Llandyfaelog
- Cyngor Cymuned Llandysul
- Cyngor Tref Llandudno
- Cyngor Cymuned Wledig Llanelli
- Cyngor Tref Llanelli
- Cyngor Cymuned Llandrinio
- Cyngor Cymuned Llangatwg Feibion Afel
- Cyngor Tref Llanwrtyd
- Cyngor Cymuned Lledrod
- Cyngor Cymuned Llys-faen
- Cyngor Tref Llŵchwr

- Cyngor Tref Maesteg
- Cyngor Cymuned Myddfai
- Cyngor Cymuned Maesyfed
- Cyngor Cymuned Northop Hall
- Cyngor Cymuned Owrtyn
- Cyngor Cymuned Doc Penfro
- Cyngor Tref Llanandras a Norton
- Cyngor Tref Rhuddlan
- Cyngor Tref Sanclêr
- Cyngor Cymuned Llandudoch
- Cyngor Cymuned Whitton

Mae'r tablau canlynol yn dangos pwy y bydd cynigion y Bil yn effeithio arnynt.

Tabl 1: Cael gwared ar y gofyniad i Weinidogion gadarnhau is-ddeddfau

| Ar eu hennill | Graddfa Debygol yr Effaith (Uchel / Canolig / Isel) |
|--|---|
| Llywodraeth Cymru Caiff amser swyddogion ei ryddhau er mwyn gweithio ar feysydd polisi eraill. | Isel Dim ond tua 8-10 swyddog sy'n ymwneud â hyn ar hyn o bryd, a hynny'n achlysurol iawn. |
| Awdurdodau Lleol Bydd yn cymryd llai o amser i gyflwyno is-ddeddf newydd. | Isel Nid oedd tua 50% o'r awdurdodau a ymatebodd wedi gwneud unrhyw is-ddeddfau yn y pum mlynedd cyn yr ymarfer ymgynghori yn 2010. Nid oedd awdurdodau'r parciau cenedlaethol a'r cynghorau cymuned a thref wedi gwneud unrhyw is-ddeddfau. |
| Ar eu colled | Graddfa Debygol yr Effaith (Uchel / Canolig / Isel) |
| Gweinidogion Cymru Bydd yna lai o gyfleoedd i gyfrannu at y broses o wneud is-ddeddfau. | Isel |
| Awdurdodau Lleol Ni fydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn craffu ar eu gwaith. | Isel Gyda'r canllawiau y mae Llywodraeth Cymru yn eu darparu, bydd awdurdodau lleol yn gallu ysgwyddo'r cyfrifoldeb am hyn. |

Tabl 2: Dyletswydd i Ymgynghori

| Ar eu hennill | Graddfa Debygol yr Effaith (Uchel / Canolig / Isel) |
|--|---|
| Rhanddeiliaid – gan gynnwys cymunedau a grwpiau buddiant arbennig Bydd dyletswydd ar awdurdodau lleol i ymgynghori â hwy yn hytrach na'r argymhelliad arfer da cyfredol. | Uchel Er bod cynnal proses ymgynghori yn cael ei awgrymu fel arfer da ar hyn o bryd, bydd y ddyletswydd i ymgynghori yn sicrhau yr ymgynghorir â phawb sydd â buddiant yn yr is-ddeddf, a bod eu safbwyntiau yn cael eu hystyried. |
| Ar eu colled | Graddfa Debygol yr Effaith (Uchel / Canolig / Isel) |
| Awdurdodau Lleol Bydd yn rhaid i'r Awdurdodau Lleol dalu am y broses ymgynghori wrth gyflwyno is-ddeddf newydd | Isel. Awgrymir cynnal ymgynghoriad fel arfer da ar hyn o bryd, felly cynnydd bychan fydd yna yn nifer yr ymgynghoriadau a gynhelir (a'r costau cysylltiedig). |

Tabl 3: Y pŵer i gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig fel dull gorfodi

| Ar eu hennill | Graddfa Debygol yr Effaith (Uchel / Canolig / Isel) |
|---|--|
| <p>Awdurdodau Lleol Bydd gan Awdurdodau Lleol opsiwn arall ar gyfer gorfodi is-ddeddfau.</p> | <p>Isel. Gall pob awdurdod ddewis defnyddio'r Hysbysiadau cosb benodedig neu beidio felly bydd yn dibynnu ar bob awdurdod.</p> |
| <p>Llysoedd Ynadon Fel arfer caiff is-ddeddfau eu gorfodi drwy'r Llysoedd Ynadon. Mae'n bosibl felly y bydd yr hysbysiadau cosb benodedig yn gostwng nifer yr achosion y gwrandewir arnynt, gan ryddhau amser i glywed achosion eraill. Mae'n bosibl, fodd bynnag, y cynhelir achosion o hyd mewn perthynas â dirwyon na chawsant eu talu.</p> | <p>Canolig o bosibl. Mae yna botensial pendant i'r hysbysiadau cosb benodedig ddisodli'r broses o orfodi drwy'r Llysoedd Ynadon yn gynyddol.</p> |
| Ar eu colled | Graddfa Debygol yr Effaith (Uchel / Canolig / Isel) |
| <p>Awdurdodau Lleol Bydd gofyn i'r Awdurdodau Lleol sefydlu systemau i gasglu dirwyon.</p> | <p>Isel. Nid oes yna ddyletswydd benodol ar Awdurdodau Lleol i ddefnyddio hysbysiadau cosb benodedig. Opsiwn yw hwn, yn hytrach na gofyniad.</p> |

Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru)

Atodiad 1 i'r Memorandwm Esboniadol
gan gynnwys y

Nodiadau Esboniadol

Cyflwyniad

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn yn ymwneud â'r Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) arfaethedig a gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 28 Tachwedd 2011.
2. Fe'u lluniwyd gan Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau Llywodraeth Cymru i helpu'r sawl sy'n darllen y Bil arfaethedig ac i fwydo i drafodaeth arno. Nid ydynt yn ffurfio rhan o'r Bil arfaethedig ac ni chawsant eu hardystio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
3. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Bil arfaethedig. Nid ydynt yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Bil ac nid oes bwriad iddynt fod felly. O'r herwydd, os yw'n ymddangos nad oes angen unrhyw esboniad neu unrhyw sylwadau ar adran neu ran o adran, nis rhoddir.
4. Mae'r pwerau i wneud y Bil i'w cael yn Rhan 4 a pharagraff 6 a 12 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("DLIC 2006"). Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru y cymhwysedd deddfwriaethol angenrheidiol i wneud darpariaeth ar gyfer y cynigion hyn ac mewn cysylltiad â hwy yn rhinwedd y pwnc sy'n ymwneud â phwerau a dyletswyddau awdurdodau lleol a'u haelodau a'u swyddogion o dan bennawd llywodraeth leol ac yn rhinwedd y pynciau sy'n ymwneud â chefn gwlad a manau agored, gwarchod natur a safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig o dan bennawd yr amgylchedd.
5. Caiff y termau a ganlyn eu defnyddio yn y Nodiadau Esboniadol hyn:
 - Awdurdod deddfu - i gyfeirio at gyngor bwrdeistref sirol neu gyngor sir yng Nghymru, cyngor cymuned, awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru.
 - Deddf 1972 - Deddf Llywodraeth Leol 1972

Sylwadau ar Adrannau

Cyflwyniad

6. Deddf a wnaed gan awdurdod deddfu o dan bŵer a roddwyd gan statud yw is-ddeddf. Ar hyn o bryd, rhaid i Weinidogion Cymru gadarnhau is-ddeddfau (weithiau mae'r pŵer hwn i gadarnhau yn arferadwy ar y cyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol). Mae dirwy gosb am dramgwyddau yn erbyn is-ddeddfau a chaiff ei gorfodi drwy Lysoedd yr Ynadon.
7. Mae'r Bil arfaethedig yn rhoi effaith i gynigion Llywodraeth Cymru i symleiddio gweithdrefnau ar gyfer gwneud a gorfodi is-ddeddfau sy'n cael eu gwneud gan awdurdod lleol. Cyflwynwyd cynigion ar gyfer newidiadau i'r gweithdrefnau cyfredol ym mhapur ymgynghori Llywodraeth Cymru: *'Is-ddeddfau Awdurdodau Lleol yng Nghymru: Gweithdrefnau ar gyfer gwneud is-ddeddfau, eu cadarnhau a'u gorfodi'* a gyhoeddwyd ym Mehefin 2010.
8. Yn ychwanegol at yr uchod, mae'r Bil arfaethedig yn datgymhwysu darpariaethau sydd eisoes yn bod yn adrannau 235 i 238 o Ddeddf 1972, i'r

graddau y maent yn gymwys i Gymru, ac yn ail-lunio'r adrannau hynny yn y Bil (gyda rhywfaint o addasu pan fo hynny'n briodol). Y canlyniad yw bod y prif ddarpariaethau deddfwriaethol sy'n ymwneud â gwneud a gorfodi is-ddeddfau yng Nghymru ar gael yn rhwydd yn y Bil.

9. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer gweithdrefn amgen y caiff awdurdodau deddfu ei dilyn wrth wneud is-ddeddfau. Pan fo awdurdod deddfu wedi ymgynghori ynghylch is-ddeddfau drafft, eu llunio a'u hysbysebu yn lleol, caniateir eu deddfu heb i Weinidogion Cymru eu cadarnhau. Mae'r Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud gorchmynion i ddiwygio'r rhestr o is-ddeddfau nad yw'n ofynnol eu cadarnhau ac y mae'r weithdrefn amgen yn gymwys iddynt.

10. Mae'r Bil hefyd yn darparu ar gyfer gorfodi is-ddeddfau penodol drwy hysbysiadau cosb benodedig, yn hytrach na'u gorfodi drwy Lysoedd yr Ynadon. Effaith hyn fydd rhoi'r gwaith o orfodi is-ddeddfau ar yr un sail â gorfodi'r gyfraith o ran gweithgareddau eraill sy'n achosi niwsans ar lefel isel. Bydd yn ei gwneud yn haws i orfodi'r materion hyn mewn ffordd sy'n cyd-drefnu pethau'n fwy. Mae'r Bil yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud gorchmynion er mwyn diwygio'r rhestr o is-ddeddfau y caniateir eu gorfodi drwy hysbysiadau cosb benodedig yn y dyfodol.

11. Bydd gan Weinidogion Cymru y pŵer i gyhoeddi canllawiau i'r gweithdrefnau newydd, gan ymdrin yn benodol ag ymgynghori ar is-ddeddfau yn lleol a'u hysbysebu, a'r defnydd o gosbau penodedig.

Pwerau i wneud is-ddeddfau

Adran 1- Trosolwg

12. Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg ar ddarpariaethau allweddol y Bil a'r hyn y mae'r Bil yn ceisio ei gyflawni. Mae gan y Bil 21 o adrannau a 2 atodlen.

Adran 2 - Is-ddeddfau ar gyfer rheolaeth dda a llywodraeth ac atal niwsansau

13. Mae'r adran hon yn cydgrynhoi yn y Bil y ddarpariaeth sydd yn adran 235 o Ddeddf 1972. Mae hyn rhoi'r gallu i gynghorau bwrdeistrefi sirol a chynghorau sir i wneud is-ddeddfau ar gyfer rheolaeth dda a llywodraeth dros eu hardal ac ar gyfer atal a dileu niwsans yn eu hardal. Ni ellir gwneud is-ddeddfau o dan yr adran hon os yw ddarpariaeth at y diben sydd o dan sylw wedi ei gwneud, neu os gellir ei gwneud, o dan ddeddfiad arall. Er enghraifft, gall is-ddeddfau o dan y pŵer hwn wahardd sglefrfyrdio, gemau pêl neu dowtio mewn rhai manau lle y mae'n achosi perygl neu niwsans penodol, neu gallant geisio rheoleiddio'r modd y caniateir i'r gweithgareddau hynny gael eu cyflawni.

Dehongli

Adran 3 - Ystyr "awdurdod deddfu"

14. Mae'r adran hon yn diffinio ystyr "awdurdod deddfu" yng Nghymru at ddiben y Bil. Mae'r diffiniad yn cynnwys cyrff cyhoeddus eraill sydd â phwerau i wneud is-ddeddfau y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru eu cadarnhau ar hyn o bryd, sef awdurdod Parc Cenedlaethol a Chyngor Cefn Gwlad Cymru.

Dirymu neu ddiwygio is-ddeddfau

Adran 4 - Dirymu neu ddiwygio gan awdurdod deddfu

15. Mae'r adran hon yn ail-lunio, yn rhannol, adran 236B o Ddeddf 1972. Mae'n rhoi pŵer i awdurdod perthnasol i wneud is-ddeddf sy'n dirymu neu'n diwygio is-ddeddf y mae wedi ei gwneud o'r blaen pan nad oes unrhyw bŵer arall i wneud hynny. Bydd hyn yn caniatáu i awdurdodau deddfu ddileu darpariaethau mewn is-ddeddfau sydd bellach yn anarferedig.

16. Mae'r pŵer i ddirymu neu ddiwygio is-ddeddf yn ddarostyngedig i'r un weithdrefn ag a oedd yn gymwys i wneud yr is-ddeddf.

Adran 5 - Dirymu gan Weinidogion Cymru

17. Mae'r adran hon yn ail-lunio, yn rhannol, adran 236B o Ddeddf 1972. Mae'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud gorchymyn sy'n dirymu is-ddeddf sy'n anarferedig yn eu barn hwy. Y bwriad y tu ôl i'r ddarpariaeth hon yw na fydd Gweinidogion Cymru yn defnyddio'r pŵer hwn ond pan na fydd yn eglur pa bŵer sydd i ddirymu'r is-ddeddf neu pa awdurdod ddylai ddirymu'r is-ddeddf. Yn rhinwedd adran 21, mae gorchymyn o'r fath yn ddarostyngedig i weithdrefn penderfyniad negyddol Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan fod y pŵer i wneud gorchymynion dim ond yn galluogi'r Gweinidogion i ddirymu is-ddeddfau sydd bellach ddim yn berthnasol.

Y weithdrefn ar gyfer is-ddeddfau

Adran 6 - Is-ddeddfau nad yw cadarnhad yn ofynnol ar eu cyfer

18. Mae'r adran hon yn rhagnodi'r weithdrefn amgen i awdurdod deddfu wneud is-ddeddf na fydd yn gofyn am gadarnhad gan Weinidogion Cymru. Mae'r adran hon yn gymwys i is-ddeddfau a wneir gan awdurdod perthnasol yn unol ag unrhyw un neu ragor o'r deddfiadau a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 1 i'r Bil.

19. Mae tri cham yn y weithdrefn:

- Datganiad ysgrifenedig cychwynnol ac ymgynghoriad â phersonau sydd â buddiant;
- Cyhoeddi'r penderfyniad a'r is-ddeddfau drafft, os yw'n briodol;
- Gwneud yr is-ddeddfau a rhoi effaith iddynt.

20. Cyn gwneud is-ddeddfau, rhaid i awdurdod deddfu lunio a chyhoeddi datganiad ysgrifenedig cychwynnol sy'n disgrifio'r mater y mae'r awdurdod deddfu o'r farn y gall gwneud is-ddeddf fynd i'r afael ag ef. Rhaid i'r awdurdod deddfu ymgynghori ag unrhyw bersonau y mae'r awdurdod o'r farn eu bod yn debygol o fod â buddiant yn y mater neu'n cael eu heffeithio ganddo ac, ar ôl ymgynghori â hwy, benderfynu ai gwneud is-ddeddfau yw'r ffordd fwyaf priodol ymlaen. Y bwriad yw y bydd canllawiau yn pwysleisio y dylai awdurdod deddfu gadw meddwl agored am wneud is-ddeddfau fel y ffordd fwyaf priodol ymlaen, cyn yr ymgynghoriad.

21. Rhaid i'r awdurdod deddfu lunio a chyhoeddi ail ddatganiad ysgrifenedig sy'n cynnwys y datganiad ysgrifenedig cychwynnol, crynodeb o'r ymateb i'r ymgynghoriad, manylion y penderfyniad y daethpwyd iddo wedi i'r ymarfer ymgynghori ddod i ben a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

22. Pan fo awdurdod deddfu yn penderfynu gwneud is-ddeddfau, rhaid iddo roi hysbysiad o'i fwriad i wneud hynny o leiaf un mis cyn i'r is-ddeddfau gael eu gwneud mewn un neu ragor o bapurau newydd lleol sy'n cylchredeg yn yr ardal y mae'r is-ddeddfau yn gymwys iddi. Rhaid i'r awdurdod deddfu hefyd gyhoeddi'r hysbysiad hwn drwy ei roi ar wefan yr awdurdod deddfu, os oes gwefan ar gael. Rhaid i'r awdurdod deddfu hefyd am un mis cyn gwneud is-ddeddfau gyhoeddi'r is-ddeddfau drafft, rhoi copi ohonynt ar adnau yn ei brif swyddfa a sicrhau bod copi ohonynt ar gael i'r cyhoedd edrych arno. Rhaid gwneud yr is-ddeddf cyn pen 6 mis ar ôl y dyddiad pan roddodd yr awdurdod deddfu hysbysiad o'i fwriad i wneud hynny.

23. Mae'n ofynnol i'r awdurdod deddfu gyhoeddi'r datganiad ysgrifenedig cychwynnol, yr ail ddatganiad ysgrifenedig, hysbysiad o fwriad i wneud yr is-ddeddf a'r is-ddeddf ddrafft ar ei wefan.

24. Caiff awdurdod deddfu godi ffi resymol am ddarparu copi o is-ddeddfau drafft arfaethedig i unrhyw berson.

Adran 7 - Is-ddeddfau y mae cadarnhad yn ofynnol ar eu cyfer

25. Mae'r adran hon yn disodli ac yn addasu darpariaethau yn adran 236 o Ddeddf 1972. Mae'n ymwneud â'r is-ddeddfau hynny a wneir gan awdurdod deddfu yn unol ag unrhyw ddeddfiad sy'n rhoi pwerau i'r awdurdodau deddfu i wneud is-ddeddfau pan na fo darpariaeth benodol o ran y weithdrefn yn cael ei gwneud fel arall. Gweithdrefn adran 236 y manylir arni yn Neddf 1972 yw'r weithdrefn gyffredin i wneud is-ddeddfau y mae cadarnhad yn ofynnol ar eu cyfer.

26. Mae tri cham yn y weithdrefn:

- Gwneud is-ddeddfau;
- Cyhoeddi'r bwriad i wneud cais i gadarnhau'r is-ddeddfau;
- Cadarnhau is-ddeddfau a rhoi effaith iddynt.

27. Rhaid i'r awdurdod deddfu gyflwyno'r is-ddeddfau y mae'n eu gwneud i'r awdurdod cadarnhau. O leiaf un mis cyn gwneud cais am gadarnhau is-

ddeddfau, rhaid i awdurdod deddfu roi hysbysiad o'i fwriad i wneud hynny mewn un neu ragor o bapurau newydd lleol sy'n cylchredeg yn yr ardal. Rhaid i'r awdurdod deddfu hefyd gyhoeddi ei fwriad i wneud hynny a rhoi copi o'r is-ddeddfau ar adnau yn ei swyddfeydd a sicrhau bod copi ohonynt ar gael i'r cyhoedd edrych arno.

28. Mae'n ofynnol i'r awdurdod deddfu gyhoeddi ar ei wefan hysbysiad o'i fwriad i wneud yr is-ddeddf a'r is-ddeddf a gyflwynwyd i'w chadarnhau.

29. Caiff awdurdod deddfu godi ffi resymol am ddarparu copi o is-ddeddfau i unrhyw berson a rhaid i'r awdurdod sicrhau bod copi o'r is-ddeddf yn cael ei roi ar adnau ym mhrif swyddfa'r awdurdod a'i fod yn agored i'r cyhoedd edrych arno ar bob adeg resymol.

30. Caiff yr awdurdod cadarnhau wrthod cadarnhau unrhyw is-ddeddf a gaiff ei chyflwyno i'w chadarnhau. Nid yw is-ddeddfau yn cael effaith hyd oni fyddant wedi eu cadarnhau gan yr awdurdod cadarnhau.

31. Pan na phennir unrhyw awdurdod cadarnhau yn y deddfiad y gwneir yr is-ddeddfau odano mae swyddogaethau cadarnhau Gweinidogion Cymru yn arferadwy ar y cyd â'r Ysgrifennydd Gwladol. Y bwriad yw y byddai'r Ysgrifennydd Gwladol yn gweithredu fel awdurdod cadarnhau ar gyfer unrhyw is-ddeddfau a fyddai'n syrthio y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Adran 8 - Materion ffurfiol, cychwyn a chyhoeddi is-ddeddfau

32. Mae'r adran hon yn ail-lunio'r darpariaethau yn adran 236 o Ddeddf 1972 a fydd yn gymwys i is-ddeddfau a wneir yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhau ac is-ddeddfau a wneir yn ddarostyngedig i'r weithdrefn amgen nad yw'n gofyn i Weinidogion Cymru eu cadarnhau. Mae'r adran hon yn gymwys i is-ddeddfau a wneir gan awdurdod perthnasol o dan unrhyw ddeddfiad sy'n rhoi pŵer i'r awdurdod deddfu i wneud is-ddeddfau. Dylid nodi na fydd y gweithdrefnau a ddisgrifir yn yr adran hon yn gymwys ond i'r graddau na fydd darpariaeth benodol ynglŷn â'r weithdrefn wedi ei gwneud fel arall.

33. Rhaid i is-ddeddfau gael eu gwneud o dan sêl gyffredin yr awdurdod deddfu, neu drwy lofnod dau aelod o gyngor cymuned nad oes ganddo sêl.

34. Mae is-ddeddfau i ddod yn effeithiol ar y dyddiad a bennir gan yr awdurdod deddfu neu'r awdurdod cadarnhau fel y bo'n briodol i'r weithdrefn y gwneir yr is-ddeddfau odani. Os na phennir dyddiad, bydd is-ddeddfau yn dod yn effeithiol un mis ar ôl iddynt gael eu gwneud (o dan gweithdrefn adran 6) neu un mis ar ôl iddynt gael eu cadarnhau (o dan weithdrefn adran 7), fel y bo'n briodol.

35. Rhaid i'r awdurdod deddfu sy'n gwneud yr is-ddeddfau gyhoeddi'r is-ddeddfau a rhoi copi o'r is-ddeddfau ar adnau yn ei brif swyddfa i'r cyhoedd gael edrych arno. Mae'r gofyniad i "gyhoeddi" yn cynnwys rhoi'r dogfennau priodol ar wefan yr awdurdod. Caiff awdurdod deddfu godi ffi sy'n rhesymol yn unol â

phenderfyniad yr awdurdod perthnasol am ddarparu copi o'r is-ddeddfau i unrhyw berson.

36. Rhaid i swyddog priodol awdurdod deddfu anfon copi o'r is-ddeddfau a wnaed gan yr awdurdod deddfu at swyddog priodol cyngor pob cymuned y mae'r is-ddeddfau yn gymwys iddi. Ar gyfer awdurdod Parc Cenedlaethol, rhaid i'r swyddog priodol anfon copi o bob is-ddeddf, ar ôl iddi gael ei gwneud, neu pan fo'n ofynnol ar ôl iddi gael ei chadarnhau, at swyddog priodol pob bwrdeistref sirol neu sir neu gymuned yng Nghymru y mae ei ardal neu ei hardal yn cynnwys y cyfan neu unrhyw ran o'r Parc Cenedlaethol.

37. Rhaid i swyddog priodol cyngor cymuned roi'r is-ddeddfau ar adnau gyda dogfennau cyhoeddus y gymuned a sicrhau bod copi ar gael i'r cyhoedd edrych arno.

38. Ar gyfer is-ddeddfau a wneir gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, rhaid i Gyngor Cefn Gwlad Cymru sicrhau bod copi o is-ddeddf, wedi iddi gael ei gwneud, neu pan fo'n ofynnol wedi iddi gael ei chadarnhau, yn cael ei anfon at swyddog priodol pob bwrdeistref sirol neu sir y mae'r is-ddeddfau yn gymwys i'w ardal neu i'w hardal ac at swyddog priodol pob cymuned y mae'r is-ddeddf yn gymwys i'w hardal.

39. Mae'r adran hon yn darparu mai'r swyddog a awdurdodwyd yn briodol gan y corff hwnnw i wasanaethu at y diben hwnnw yw'r "swyddog priodol".

Adran 9 - Y pŵer i ddiwygio Rhan 1 o Atodlen 1

40. Mae'r adran hon yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i ddiwygio Rhan 1 o Atodlen 1 (is-ddeddfau nad yw cadarnhad yn ofynnol ar eu cyfer). Nid oes angen i Weinidogion Cymru gadarnhau'r is-ddeddfau hyn. Wrth wneud unrhyw orchymyn o'r fath caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio Rhan 1 o Atodlen 1 drwy ychwanegu at y rhestr o ddeddfiadau neu dynnu oddi arni neu drwy ddiwygio'r math o awdurdod a gaiff wneud is-ddeddfau heb gadarnhad. Yn rhinwedd adran 21(3), mae gorchymyn o'r fath yn ddarostyngedig i benderfyniad cadarnhaol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan y bydd y Gorchymyn yn diwygio'r Ddeddf hon a chaiff gynnwys diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth sylfaenol arall yn unol â'r pŵer yn adran 21(1)..

41. Mae darpariaeth yn adran 21(1) yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud unrhyw ddarpariaethau cysylltiedig, canlyniadol, trosiannol neu atodol ag y gwêl Gweinidogion Cymru yn dda. Yn achos gorchymyn o dan adran 9 gall y ddarpariaeth hon gynnwys darpariaeth i ddiwygiom diddymu neu ddirymu deddfiadau.

Gorfodi is-ddeddfau

Adran 10 - Tramgwyddau yn erbyn is-ddeddfau

42. Mae'r adran hon yn ail-lunio adran 237 o Ddeddf 1972, gan gynnwys yr addasiadau a wnaed o ran y ddirwy daladwy a ddarperir gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1982. Caiff is-ddeddfau a wneir gan awdurdod

perthnasol ddarparu bod personau sy'n mynd yn groes i'r is-ddeddfau yn atebol ar gollfarn ddiannod i ddirwy. Ni chaniateir i'r ddirwy honno fod yn uwch na'r swm a bennir gan y deddfiad perthnasol neu, os na phennir swm, lefel 2 ar y raddfa safonol (£500 ar hyn o bryd). Yn yr un modd, y ddirwy ar gollfarn am dramgwydd sy'n parhau yw'r swm a bennir yn y deddfiad perthnasol neu £5 ar gyfer pob diwrnod y mae'r tramgwydd yn parhau.

Adran 11 - Is-ddeddfau adran 2; pwerau ymafael etc

43. Mae'r adran hon yn ail-lunio adran 237ZA o Ddeddf 1972 a fewnosodwyd gan adran 150(2) o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011. Mae'n galluogi awdurdod perthnasol i roi effaith i bwerau ymafael a chadw unrhyw eiddo mewn cysylltiad ag unrhyw doriad o is-ddeddf a wneir o dan adran 2 (rheolaeth dda a llywodraeth a rhwystro ac atal niwsansau) ac, ar gollfarn am diffyg cydymffurfiaeth neu fynd yn groes i unrhyw is-ddeddf, darpariaeth am fforffedu unrhyw eiddo o'r fath.

Hysbysiadau cosbau penodedig

Adran 12 - Y pŵer i gynnig cosbau penodedig am dramgwyddau yn erbyn is-ddeddfau penodol

44. Mae'r adran hon yn galluogi awdurdod deddfu i ddefnyddio cosbau penodedig fel dull amgen o orfodi is-ddeddfau a wnaed o dan y deddfiadau a restrir yn Rhan 2 o'r Atodlen 1 i'r Bil.

45. Pan bennir is-ddeddf o fewn Rhan 2 o'r Atodlen 1 i'r Bil, mae is-adran (2) yn darparu i swyddog a awdurdodwyd gan awdurdod deddfu i ddyroddi hysbysiad cosb benodedig sy'n cynnig cyfle i berson fodloni unrhyw atebolrwydd i gollfarn am dramgwydd yn erbyn is-ddeddfau drwy dalu'r swm a bennir yn yr hysbysiad cosb benodedig. Mae is-adran (3) yn gwneud yr un ddarpariaeth i swyddog a awdurdodwyd gan gyngor cymuned i ddyroddi hysbysiadau cosb benodedig mewn perthynas â thramgwyddau yn erbyn is-ddeddfau a gyflawnwyd yn ei ardal, hyd yn oed os cafodd yr is-ddeddf ei gwneud gan awdurdod deddfu ar wahân i'r cyngor cymuned.

46. Mae is-adran (4) yn darparu bod cosb benodedig yn daladwy i'r awdurdod deddfu y dyroddwyd yr hysbysiad gan ei swyddog.

47. Mae is-adran (5) yn darparu bod gan y sawl sy'n cael hysbysiad cosb benodedig bedwar diwrnod ar ddeg ar ôl iddo gael yr hysbysiad i dalu'r gosb benodedig a thrwy hynny osgoi mynd i Lys yr Ynadon mewn cysylltiad â'r tramgwydd.

48. Mae is-adran (6) yn darparu bod rhaid i'r hysbysiad cosb benodedig roi digon o wybodaeth i'r sawl sy'n cael yr hysbysiad fel bod natur y tramgwydd yn eglur iddo.

49. Mae is-adran (7) yn darparu bod rhaid i hysbysiad cosb benodedig hefyd nodi manylion am y cyfnod pan na fyddir yn dwyn achos am y tramgwydd, swm

y gosb benodedig ac enw'r person y caniateir talu'r gosb benodedig iddo a'r cyfeiriad lle y caniateir ei thalu.

50. Mae is-adran (8) yn darparu ar gyfer y dull o dalu'r gosb benodedig drwy ragdal a phostio llythyr.

51. Mae is-adran (9) yn manylu pan fo llythyr yn cael ei anfon sy'n talu'r taliad, bernir y bydd y taliad wedi ei wneud ar yr amser y byddai'r llythyr wedi cael ei ddosbarthu yn nhrefn arferol y post.

52. Mae is-adran (10) yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau er mwyn iddynt allu pennu ffurf yr hysbysiad cosb benodedig a ddyroddir yn unol â'r adran hon. Mae'r pwerau hyn yn ddarostyngedig i weithdrefn penderfyniad negyddol y Cynulliad Cenedlaethol.

53. Mae is-adran (11) yn darparu, os bydd achos llys, y bernir bod tystysgrif a lofnodwyd ar ran prif swyddog cyllid awdurdod sy'n datgan bod taliad cosb benodedig wedi dod i law, neu'n datgan nad yw, yn ôl y digwydd, yn dystiolaeth o'r ffeithiau a ddatgenir.

54. Mae is-adran (12) yn gwneud darpariaeth am ba bersonau a awdurdodir i ddyroddi cosbau penodedig. Bydd "swyddogion awdurdodedig" yn cael eu cyfyngu i'r sawl a awdurdodir yn ysgrifenedig gan yr awdurdod deddfu i gyflawni'r swyddogaeth. Cânt fod yn gyflogeion uniongyrchol i'r awdurdod deddfu, neu berson, neu gyflogai i berson, y mae gan yr awdurdod deddfu gcontract ag ef i orfodi is-ddeddfau.

55. Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i bennu, drwy reoliadau, ffurf yr hysbysiad hwn a'r amodau sydd i'w bodloni gan berson cyn y caiff cyngor cymuned ei awdurdodi i roi hysbysiaid. Mae'r pŵer hwn yn ddarostyngedig i weithdrefn penderfyniad negyddol y Cynulliad Cenedlaethol.

Adran 13 - Swm cosb benodedig

56. Mae'r adran hon yn darparu ar gyfer lefel cosbau penodedig sy'n daladwy o ran torri is-ddeddfau y caiff yr awdurdod deddfu ei phennu. Mae'r adran yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau er mwyn iddynt gael pennu ystod y mae'n rhaid i swm y gosb benodedig ddod o fewn iddi. Mae arfer y pŵer hwn yn ddarostyngedig i weithdrefn penderfyniad negyddol y Cynulliad Cenedlaethol.

57. Pan fo ystod wedi ei phennu, caiff awdurdod deddfu ddewis gosod swm o fewn yr ystod honno. Pan na fo ystod wedi ei phennu, bydd awdurdod deddfu yn rhydd i osod y gosb. Pan na fo'r awdurdod deddfu yn pennu cosb am dorri is-ddeddf, mae'r adran yn darparu am swm diofyn o £75. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud gorchymyn i newid y swm diofyn fel y bo'r angen, fel bod y lefel yn aros rhywbeth yn debyg i dramgwyddau lefel isel eraill. Mae pŵer Gweinidogion Cymru yn y cyswllt hwn yn ddarostyngedig i benderfyniad cadarnhaol gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Adran 14 - Y pŵer i ofyn am enw a chyfeiriad mewn cysylltiad â chosb benodedig

58. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i swyddog awdurdodedig sy'n bwriadu dyroddi hysbysiad cosb benodedig am dorri is-ddeddf i'w gwneud yn ofynnol i'r person y dyroddir yr hysbysiad iddo roi ei enw a'i gyfeiriad. Bydd y sawl nad yw, heb esgus rhesymol, yn rhoi ei enw na'i gyfeiriad neu sy'n rhoi enw a chyfeiriad ffug yn cyflawni tramgwydd a bydd yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel tri ar y raddfa safonol (£1,000 ar hyn o bryd). Mae'r tramgwydd o fethu â chydymffurfio yn tanseilio gallu awdurdod deddfu i ofodi'r gyfraith a chaiff y tramgwydd hwn ei adlewyrchu yn lefel y ddirwy.

Adran 15 - Y defnydd o dderbyniadau am gosbau penodedig

59. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod deddfu, wrth iddo ystyried sut i ddefnyddio'r arian a ddaw i mewn yn sgil y cosbau penodedig, roi sylw i ba mor ddymunol fyddai hi i ddefnyddio'r arian i fynd i'r afael â niwsansau y gwnaed is-ddeddf i'w rhwystro. Ystyr hyn yw ei bod yn ofynnol i awdurdodau deddfu ystyried a ddylai'r arian a ddaw i mewn yn sgil cosbau penodedig gael eu defnyddio yn gyffredinol i fynd i'r afael â'r niwsansau hyn. Ni fyddai'n angenrheidiol i ddefnyddio'r arian a ddaw i mewn yn unig tuag at fynd i'r afael â'r niwsans y mae a wnelo'r is-ddeddf ag ef.

Adran 16 – Y pŵer i ddiwygio Rhan 2 o Atodlen 1

60. Mae'r adran hon yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru drwy orchymyn ddiwygio'r rhestr a geir yn Rhan 2 o Atodlen 1 (is-ddeddfau y caniateir dyroddi hysbysiadau cosbau penodedig mewn perthynas â hwy) drwy ychwanegu at y rhestr o ddeddfiadau neu dynnu oddi arni, neu drwy ddiwygio'r math o awdurdod a gaiff gynnig hysbysiadau cosbau penodedig. Mae pŵer hwn i wneud gorchymynion yn ddarostyngedig i weithdrefn penderfyniad cadarnhaol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Adran 17 – Swyddogion Cymorth Cymunedol etc

61. Mae'r adran hon yn diwygio Deddf Diwygio'r Heddlu 2002 at y diben a ganlyn. Os yw awdurdod deddfu a phrif swyddog yr heddlu ar gyfer yr ardal yn cytuno, caiff swyddogion cymorth cymunedol a "phersonau achrededig" eraill o dan y Ddeddf honno ddyroddi hysbysiadau cosbau penodedig am dorri is-ddeddfau awdurdodau deddfu. Cyn i swyddog cymorth cymunedol neu berson achrededig allu gwneud hyn, mae'n rhaid i brif swyddog yr heddlu ddynodi'r swyddog cymorth cymunedol neu'r person achrededig fel un sydd â'r swyddogaeth honno. Yn ychwanegol at hyn, rhaid i'r is-ddeddf y mae a wnelo'r hysbysiad cosb benodedig â hi ymddangos ar restr a gytunwyd rhwng prif swyddog yr heddlu a'r awdurdod deddfu.

Amrywiol a chyffredinol

Adran 18 - Canllawiau

62. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau statudol ar gyfer y gweithdrefnau i wneud is-ddeddfau, gorfodi is-ddeddfau ac ynghylch unrhyw fater perthnasol arall. Bydd materion perthnasol eraill yn cynnwys canllawiau ar ymgynghori ar is-ddeddfau newydd a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt a'r arferion gorau o ran is-ddeddfau a'r defnydd o hysbysiadau cosbau penodedig. Rhaid i awdurdod deddfu roi sylw i'r canllawiau wrth wneud neu wrth orfodi is-ddeddfau.

Adran 19 - Tystiolaeth o is-ddeddfau

63. Mae'r adran hon yn ail-lunio adran 238 o Ddeddf 1972. Mae'n gwneud darpariaeth ar gyfer darparu tystiolaeth bod is-ddeddfau a wnaed gan awdurdod deddfu yn bodoli pan na fydd yr is-ddeddfau hynny yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhau. Bernir mai copi wedi ei argraffu o'r is-ddeddf a arnodwyd ynghyd â thystysgrif a lofnodwyd gan swyddog priodol awdurdod deddfu yw copi ardystiedig o is-ddeddf.

64. Rhaid i'r copi ardystiedig o'r is-ddeddf ddatgan bod yr is-ddeddf wedi ei gwneud gan yr awdurdod deddfu, ei fod yn gopi gwir o'r is-ddeddf a wnaed, y dyddiad pan gadarnhawyd yr is-ddeddf gan yr awdurdod deddfu a enwir yn y dystysgrif, neu, yn ôl y digwydd, ei bod wedi ei hanfon i'r awdurdod cadarnhau a heb gael ei gwrthod. Yn ychwanegol at hyn, rhaid i'r copi ardystiedig ddatgan y dyddiad, os oes un, a bennwyd gan yr awdurdod cadarnhau i'r is-ddeddf ddod yn effeithiol.

65. Mae'r adran hon yn darparu bod dangos copi ardystiedig o is-ddeddf yn cael ei farnu yn dystiolaeth ddigonol o'r ffeithiau a ddatgenir yn y dystysgrif oni phrofir fel arall.

66. Ni fyddai'n rhaid i awdurdod deddfu ddatgan yn y copi ardystiedig y gofynion a nodir yn is-adran 19(2)(c) a (d) pe na bai'r is-ddeddf yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhau ar ôl iddi gael ei gwneud.

Adran 20 – Diwygiadau canlyniadol

67. Mae'r adran hon yn darparu ar gyfer rhoi effaith i Atodlen 2 sy'n gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i nifer o ddeddfiadau sy'n cynnwys darpariaethau ynghylch gwneud is-ddeddfau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhau yn unol ag adran 236 o Ddeddf 1972. Pan fo is-ddeddfau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn amgen a nodir yn y rhestr yn Rhan 1 o Atodlen 1 i'r Bil, mae unrhyw ofyniad i gael cadarnhad i fod yn gymwys yn unig yn Lloegr.

68. Gwneir diwygiadau sy'n gosod ar awdurdod deddfu y dyletswyddau a gafodd eu harfer yn flaenorol gan Weinidogion Cymru wrth iddynt weithredu fel yr awdurdod cadarnhau.

69. Gwneir diwygiadau hefyd i adrannau 235, 236, 236B ac adran 238 o Ddeddf 1972 i ddatgymhwysu'r darpariaethau hyn o ran Cymru.

Adran 21 – Gorchmynion a rheoliadau

70. Mae'r adran hon yn cynnwys pŵer i wneud rheoliadau a gorchmynion o dan y Ddeddf hon sy'n cynnwys pŵer i wneud darpariaeth gysylltiedig, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth atodol.

71. Yn achos y pwerau i wneud gorchmynion o dan adrannau 9 ac 16, (diwygiadau i Rannau 1 a 2 o Atodlen 1) mae'r ddarpariaeth gysylltiedig, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth atodol y caniateir eu gwneud yn gallu cynnwys darpariaeth sy'n diwygio, diddymu neu ddirymu deddfiadau.

72. Caiff gorchmynion o dan adran 9 ac 16 ac unrhyw orchymyn o dan adran 13(5) eu gwneud yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol gan eu bod yn bwriadu diwygio'r Ddeddf hon a chânt wneud diwygiadau yn sgil hynny i ddeddfwriaeth sylfaenol arall.

73. Mae gorchmynion a rheoliadau eraill (ar wahân i orchmynion cychwyn) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol.

Adran 22- Cychwyn

74. Mae'r adran hon yn darparu i'r Ddeddf ddod i rym yn unol â darpariaeth a wneir gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn.

Adran 23 - Enw byr

75. Mae'r adran hon yn darparu mai enw byr y Ddeddf hon yw Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012.

Atodlen 1 – Rhestrau o bwerau i wneud is-ddeddfau

Adrannau 6 a 12

Rhan 1 – Is-ddeddfau pan na fo cadarnhad yn ofynnol

76. Mae Rhan 1 o Atodlen 1 yn rhestru'r deddfiadau y gwneir is-ddeddfau odanynt nad ydynt yn ddarostyngedig i'w cadarnhau gan Weinidogion Cymru. Darperir y bydd adran 6 o'r Bil yn gymwys i is-ddeddfau a wneir o dan y deddfiadau a'r math o awdurdod deddfu a restrir yn Rhan 1 o Atodlen 1.

Rhan 2 – Is-ddeddfau y caniateir dyroddi cosbau penodedig mewn perthynas â hwy

77. Mae Rhan 2 o Atodlen 1 yn rhestru'r deddfiadau y gwneir is-ddeddfau odanynt y caniateir eu bodloni drwy hysbysiad cosb benodedig. Darperir y bydd adran 12 o'r Bil yn gymwys i is-ddeddfau a wneir o dan y deddfiadau a'r math o awdurdod deddfu a restrir yn Rhan 2 o Atodlen 1.

Atodlen 2 – Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol

Adran 20

78. Mae Atodlen 2 yn rhestru'r mân ddiwygiadau a'r diwygiadau canlyniadol a wneir gan y Bil i nifer o ddeddfiadau sy'n cynnwys darpariaethau ynghylch gwneud is-ddeddfau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhau yn unol ag adran 236 o Ddeddf 1972.

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales



Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Adroddiad: CLA(4)-01-12 : 16 Ionawr 2012

Mae'r Pwyllgor yn cyflwyno'r adroddiadau a ganlyn i'r Cynulliad:

Offerynnau nad ydynt yn cynnwys unrhyw faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

CLA64 – Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful) 2011

Gweithdrefn: Negyddol

Fe'i gwnaed ar: 29 Tachwedd 2011

Fe'i gosodwyd ar: 1 Rhagfyr 2011

Yn dod i rym ar: 11 Ionawr 2012

CLA65 – Rheoliadau Perygl Llifogydd (Diwygio) (Cymru) 2011

Gweithdrefn: Negyddol

Fe'u gwnaed ar: 30 Tachwedd 2011

Fe'u gosodwyd ar: 1 Rhagfyr 2011

Yn dod i rym ar: 22 Rhagfyr 2011

CLA67 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Diwygio) (Cymru) 2011

Gweithdrefn: Negyddol

Fe'u gwnaed ar: 4 Rhagfyr 2011

Fe'u gosodwyd ar: 6 Rhagfyr 2011

Yn dod i rym ar: 31 Rhagfyr 2011

CLA69 – Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) (Diwygio) 2011

Gweithdrefn: Negyddol

Fe'u gwnaed ar: 2 Rhagfyr 2011

Fe'u gosodwyd ar: 6 Rhagfyr 2011

Yn dod i rym ar: 31 Rhagfyr 2011

CLA70 – Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2011

Gweithdrefn: Negyddol

Fe'u gwnaed ar: 6 Rhagfyr 2011

Fe'u gosodwyd ar: 8 Rhagfyr 2011

Yn dod i rym ar: 1 Ionawr 2012

CLA71 – Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Trawsgydymffurfio) (Cymru) (Diwygio) 2011

Gweithdrefn: Negyddol

Fe'u gwnaed ar: 7 Rhagfyr 2011

Fe'u gosodwyd ar: 8 Rhagfyr 2011

Yn dod i rym ar: 1 Ionawr 2012

CLA75 – Rheoliadau'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2011

Gweithdrefn: Negyddol

Fe'u gwnaed ar: 19 Rhagfyr 2011

Fe'u gosodwyd ar: 20 Rhagfyr 2011

Yn dod i rym ar: 16 Ionawr 2012

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol

Dim

Offerynnau sy'n cynnwys materion i'w codi o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

CLA66 – Rheoliadau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) 2011

Gweithdrefn: Negyddol

Fe'u gwnaed ar: 4 Rhagfyr 2011

Fe'u gosodwyd ar: 6 Rhagfyr 2011

Yn dod i rym ar: 27 Rhagfyr 2011

CLA68 – Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) (Diwygio) 2011

Gweithdrefn: Negyddol

Fe'u gwnaed ar: 2 Rhagfyr 2011

Fe'u gosodwyd ar: 6 Rhagfyr 2011

Yn dod i rym ar: 31 Rhagfyr 2011

CLA72 – The Non-Commercial Movement of Pet Animals Order 2011

Gweithdrefn: Negyddol

Fe'i gwnaed ar: 6 Rhagfyr 2011

Fe'i gosodwyd gerbron y Senedd ar: 9 Rhagfyr 2011

Fe'i gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar: 9 Rhagfyr 2011

Yn dod i rym ar: 1 Ionawr 2012

CLA73 – The Environmental Permitting (England and Wales) (Amendment) (No. 2) Regulations 2011

Gweithdrefn: Negyddol

Fe'u gwnaed ar: 6 Rhagfyr 2011

Fe'u gosodwyd gerbron y Senedd ar: 9 Rhagfyr 2011

Fe'u gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar: 9 Rhagfyr 2011

Yn dod i rym ar: 1 Ionawr 2012

CLA74 – The Eels (England and Wales) (Amendment) Regulations 2011

Gweithdrefn: Negyddol

Fe'u gwnaed ar: 12 Rhagfyr 2011

Fe'u gosodwyd gerbron y Senedd ar: 13 Rhagfyr 2011

Fe'u gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar: 13 Rhagfyr 2011

Yn dod i rym ar: 3 Ionawr 2012

Cytunodd y Pwyllgor ar yr Adroddiadau am yr offerynnau statudol hyn o dan Reolau Sefydlog 21.2 a 21.3. Ceir copi ohonynt yn Atodiadau 1 i 5.

Busnes arall

Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol

Ystyriodd y Pwyllgor y briff cyfreithiol ar y Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) a phenderfynu craffu ymhellach ar y Bil. Er mwyn cydfynd â dyddiad cau'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, bydd angen i'r Pwyllgor adrodd ar y Bil erbyn canol mis Mawrth fan bellaf. O ganlyniad, cytunodd yr Aelodau i wahodd Carl Sargeant, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, i roi tystiolaeth ddydd Llun 23 Ionawr 2012.

Gohebiaeth y Pwyllgor

CLA49 – Gorchymyn Adroddiadau Archwilio ac Asesu (Cymru) (Diwygio) 2011

Nododd y Pwyllgor ymateb y Gweinidog i lythyr y Cadeirydd dyddiedig 17 Tachwedd 2011 ynghylch rhinweddau'r Gorchymyn Adroddiadau Archwilio ac Asesu (Cymru) (Diwygio) 2011.

Diwygiadau i'r Bil Lleoliaeth

Nododd y Pwyllgor ymateb y Prif Weinidog i lythyr y Cadeirydd at y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau am y diwygiadau i'r Bil Lleoliaeth, dyddiedig 14 Tachwedd 2011.

David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

16 Ionawr 2012

Atodiad 1

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

(CLA(4)-01-12)

CLA66

Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Teitl: Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) 2011

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989 drwy ddiweddarau, drwy ychwanegu Jersey, y rhestr o wledydd neu diriogaethau y mae Llywodraeth y DU wedi dod i gydgytundeb gofal iechyd â hwy. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn cyflwyno esemptiadau rhag ffioedd am driniaeth GIG (ar gyfer y cyfnod rhwng 9 Gorffennaf 2012 a 12 Medi 2012) i aelodau o Deulu'r Gemau sy'n cymryd rhan yn y Gemau Olympaidd a'r Gemau Paralympaidd yn 2012.

Materion Technegol: Craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: Craffu

O dan Reol Sefydlog 21.3(ii) (ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad) gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn.

Efallai yr hoffai'r Aelodau nodi bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Rhagfyr 2009 wedi hysbysu'r Pwyllgor bod yr Adran Iechyd wedi rhoi'r gorau i'r cytundeb dwyochrog ym mis Mawrth 2009 rhwng y DU ac Ynysoedd y Sianel. Rhoddwyd effaith i derfynu'r cytundeb gan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2011 - cyfeiria SLC353 ato.

Nid yw'n glir o'r Memorandwm Esboniadol pam bod cytundeb dwyochrog yn mynd i gael ei adfer â Jersey, ac nid yw'r Memorandwm Esboniadol chwaith yn nodi pam nad oes cytundeb dwyochrog tebyg yn mynd i gael ei adfer ag Ynysoedd eraill y Sianel. Nid yw'n glir chwaith ai Cymru'n unig sy'n adfer y cytundeb â Jersey. Byddai

esboniad ynghylch pam mae Llywodraeth Cymru yn adfer y cytundeb dwyochrog â Jersey nawr i'w groesawu.

David Melding AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

16 Ionawr 2012

Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:

Rheoliadau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) 2011

Mewn ymateb i adroddiad eich Pwyllgor, CLA66, rwy'r rhoi rhagor o wybodaeth isod am y pwyntiau a godwyd.

Cytunodd Llywodraeth y DU ar gytundeb gofal iechyd cyfatebol gydag Ynys Jersey a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2011. Diddymwyd y 'cytundeb' cynharach yn 2009. O dan y cytundeb blaenorol, codwyd tâl ar y DU am gost trin ymwelwyr â Jersey o'r DU a chodwyd tâl ar Jersey gan y DU am gostau trin ymwelwyr â'r DU o Jersey. Amcangyfrifodd yr Adran Iechyd bod telerau'r cytundeb hwn wedi arwain at golled net i Weinyddiaethau'r DU o sawl miliwn o bunnoedd. Ni wnaeth Jersey gydweithredu o ran cyfnewid y data angenrheidiol ynghylch nifer y cleifion a chostau'r triniaethau, ac felly penderfynwyd diddymu'r cytundeb.

Fe wnaeth yr Adran Iechyd negodi cytundeb newydd gyda Jersey, lle na fyddai unrhyw arian yn cael ei gyfnewid. Mae hynny'n golygu bod Jersey bellach yn yr un sefyllfa â'r gwledydd a'r tiriogaethau eraill y mae gan y DU Gytundebau Gofal Iechyd cyfatebol â hwy. Fe ymgynghorwyd â'r gweinyddiaethau datganoledig cyn ymrwymo i'r cytundeb newydd, ac fe gefnogodd pob un ohonynt y cytundeb newydd. Mae Gogledd Iwerddon a'r Alban hefyd wedi gweithredu'r cytundeb cyfatebol newydd.

Mae'n debygol y bydd Cymru ar ei hennill yn ariannol o ganlyniad i'r cytundeb newydd hwn gan mai nifer fechan o ymwelwyr o Jersey y bu gofyn rhoi triniaeth frys ac angenrheidiol iddynt yng Nghymru, yn hanesyddol. Nid oes gan Jersey ffigurau ynghylch faint o ymwelwyr o Gymru yr oedd gofyn rhoi triniaeth frys ac angenrheidiol iddynt wrth iddynt ymweld â Jersey.

Diddymwyd y cytundeb cyfatebol rhwng y DU a Guernsey yn 2009. Mae'r sefyllfa mewn perthynas â Guernsey yn fwy cymhleth gan nad yw'r gofal iechyd sy'n dod o dan y cytundebau cyfatebol, hynny yw triniaeth y mae'n ofynnol ei rhoi ar unwaith gan gynnwys damweiniau ac achosion brys, yn cael ei chynnig am ddim i breswylwyr lleol. Pe bai Guernsey yn ymrwymo i gytundeb gofal iechyd cyfatebol gyda'r DU

tebyg i'r un rhwng y DU a Jersey, byddai Guernsey mewn sefyllfa anodd lle byddai ymwelwyr o'r DU yn derbyn gofal iechyd am ddim, a phreswylwyr Guernsey yn gorfod talu amdano. Ar hyn o bryd, nid yw Guernsey yn fodlon ymrwymo i gytundeb gofal iechyd cyfatebol gyda'r DU sy'n cynnwys darpariaeth na chaiff unrhyw arian ei gyfnewid rhwng y gweinyddiaethau.

Er nad yw'n un o Ynysoedd y Sianel, mae'n bosibl bod gan y Pwyllgor ddiddordeb yn sefyllfa Ynys Manaw. Roedd y cytundeb gwreiddiol rhwng y DU ac Ynys Manaw i fod i ddod i ben fis Mawrth 2010, ond cafodd ei ymestyn hyd fis Medi 2010. Gweithredwyd cytundeb newydd ar 1 Hydref 2010, felly mae yna gytundeb cyfatebol parhaus wedi bod gydag Ynys Manaw.

Atodiad 2

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

(CLA(4)-01-12)

CLA68

Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Teitl: Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) (Diwygio) 2011

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) 2008 (O.S. 2008/3100) drwy ychwanegu pum tanwydd newydd at y rhestr o danwyddau a nodwyd yn danwyddau awdurdodedig at ddibenion Rhan III o Ddeddf Aer Glân 1993 a thrwy ddiwygio manylebau un tanwydd arall ar y rhestr honno.

Materion Technegol: craffu

Nodwyd y pwyntiau canlynol i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

(1) Mae is-baragraff (c) o'r paragraff 36 newydd yn y testun Cymraeg yn cyfeirio at "frics glo heb eu marcio ar siâp clustogau", tra bod y testun Saesneg yn cyfeirio at "cushion shaped briquettes" heb nodi eu bod heb eu marcio. Nid yw'n glir pa fersiwn sy'n gywir.

[Rheol Sefydlog 21.2 (vii)– ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft] a [Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol].

(2) Mae Rheoliad 3 (Arbed) y testun Saesneg yn cyfeirio at baragraff 36 o'r Atodlen Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) 2008 ("Rheoliadau 2008"); tra, er bod y fersiwn Gymraeg yn cyfeirio at baragraff 36, nid yw'n cyfeirio at yr Atodlen i Rheoliadau 2008, ac felly mae'n aneglur yn y testun Cymraeg lle mae paragraff 36 yn ymddangos.

[Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft] a [Rheol Sefydlog 21.2 (vi)– ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.

Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

16 Ionawr 2012

Dyma ymateb y Llywodraeth:

**Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig)
(Cymru) (Diwygio) 2011**

Ymateb i'r materion a godwyd gan Gynghorwyr Cyfreithiol y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Pwynt 1

Fel y dywedwyd yn yr adroddiad drafft, mae gwahaniaeth rhwng testunau Cymraeg a Saesneg y paragraff 36 newydd a roddwyd yn lle'r hen un a hynny yn is-baragraff (c). Mae'r paragraff hwn wedi ei gynnwys yn rheoliad 2(dd) o'r testun Cymraeg ac yn y rheoliad cyfatebol o'r testun Saesneg, sef rheoliad 2(f).

Mae'r testun Cymraeg yn anghywir wrth ddweud bod y brics glo heb eu marcio ond mae'n mynd yn ei flaen wedyn i ddisgrifio'n gywir y marcio ar y brics glo. Mae'r testun Cymraeg yn amwys, felly, ond mae'n cynnwys geiriau sy'n dangos bod marcio ar y brics glo. Mae'r testun Saesneg yn gywir ac yn ddiamwys ac yn adlewyrchu'n gywir y diben a'r effaith arfaethedig fel y maent wedi eu nodi yn y Memorandwm Esboniadol. O gymryd y disgrifiad o'r marcio yn y testun Cymraeg, a'i ystyried ar y cyd â'r testun Saesneg, nid oes unrhyw amheuaeth ynghylch pa destun sy'n gywir: mae'n amlwg bod y gwall yn nhestun Cymraeg y paragraff 36(c) newydd a roddwyd yn lle'r hen un. I gael gwared ar yr amwysedd, mae'n briodol, felly, i'r testun Cymraeg gael ei gywiro adeg ei gyhoeddi drwy ddileu'r geiriau "heb eu marcio", a bydd hynny'n cael ei wneud.

Pwynt 2

Fel y dywedwyd yn yr adroddiad drafft, mae gwahaniaeth rhwng rheoliad 3 o'r testun Cymraeg a rheoliad 3 o'r testun Saesneg. Serch hynny, er gwaethaf yr anghysondeb, mae effaith gyfreithiol y testun Cymraeg yn glir, ac mae'r un fath â'r testun Saesneg. Y rheswm am hynny yw nad oes unrhyw baragraff 36 ym mhrif gorff y Rheoliadau sy'n cael eu diwygio; dim ond yn yr unig Atodlen i'r Rheoliadau hynny

y mae i'w gael (a honno'n Atodlen y mae'r testun Saesneg yn cyfeirio ati yn glir). Gan hynny, mae'n briodol i'r gwall gael ei gywiro adeg cyhoeddi'r Rheoliadau, a bydd hynny'n cael ei wneud.

Atodiad 3

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

(CLA(4)-01-12)

CLA72

Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Teitl: The Non-Commercial Movement of Pet Animals Order 2011

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer gweinyddu a gorfodi nifer o Benderfyniadau y Comisiwn ym Mhrydain Fawr, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â mesurau gwarchod mewn perthynas â feirws brech y mwnci, ffliw adar pathogenig iawn a symudiadau adar anwes sy'n teithio gyda'u perchnogion i ardal y Gymuned, diogelu rhag cyflwyno'r gynddaredd, clefyd Hendra, clefyd Nipah ac ar gyfer gweinyddu a gorfodi Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (yr Undeb Ewropeaidd) Rhif 1152/2011 sy'n atodi Rheoliad (y Comisiwn Ewropeaidd) Rhif 998/2003 mewn perthynas â mesurau iechyd ataliol er mwyn rheoli heintiad llyngyren ruban mewn cŵn.

Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Ni wnaethpwyd The Non-Commercial Movement of Pet Animals Order 2011 yn ddwyieithog.

[Rheol Sefydlog 21.2 (ix) – nad yw wedi'i wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

16 Ionawr 2012

Ymatebodd y Llywodraeth fel a ganlyn:

Gorchymyn Symud Anfasnachol Anifeiliaid Anwes 2011

Mae'r Gorchymyn cyfansawdd hwn yn gymwys i Gymru a Lloegr ac yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd y Deyrnas Unedig. Yn unol â hynny, nid ystyrir ei bod yn rhesymol ymarferol i'r offeryn hwn gael ei osod ar ffurf ddrafft, na'i wneud, yn ddwyieithog.

Atodiad 4

Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

(CLA(4)-01-12)

CLA73

Teitl: The Environmental Permitting (England and Wales) (Amendment) (No.2) Regulations 2011

Gweithdrefn: Negyddol

Bydd y Rheoliadau drafft hyn yn gymwys i Gymru a Lloegr.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio The Environmental Permitting (England and Wales) Regulations 2010 i gynnwys trosi Cyfarwyddeb 2009/126/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd ar Gam II adfer anwedd petrol wrth lenwi cerbydau modur â thanwydd mewn gorsafoedd petrol.

Materion Technegol: craffu

O dan Reol Sefydlog 21.2, bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn:-

1. Nid yw'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud yn ddwyieithog.

[21.2(ix) - nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg].

Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn ar hyn o bryd.

David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

16 Ionawr 2012

Dyma ymateb y Llywodraeth:

Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Rhif 2) 2011

Mae'r Rheoliadau cyfansawdd hyn yn diwygio rhai o'r darpariaethau yn Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010 O.S. 2010/675 i drosi'r Gyfarwyddeb ar Gam II adfer anwedd petrol wrth

ail-lenwi cerbydau modur mewn gorsafoedd petrol (Cyfarwyddeb 2009/126/EC). Mae gofynion Cam I o'r Gyfarwyddeb ar adfer anwedd petrol (Cyfarwyddeb 1994/63/EC ar reolaeth allyriadau cyfansoddyn organig anweddol o ganlyniad i storio petrol a'i ddsbarthu o derfynellau i orsafoedd petrol) eisoes wedi eu cynnwys yn Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010. Mae'r drefn Trwyddedu Amgylcheddol yn rhesymoli rhannau gweithdrefnol swp o ddeddfwriaeth sy'n eithriadol o dechnegol a chymhleth. Mae wedi symleiddio gweithrediad y system drwyddedu y mae diwydiant a rheoleiddwyr yn gweithio odani heb gyfaddawdu mewn unrhyw fodd safonau amgylcheddol neu safonau iechyd dynol. Canlyniad hyn yw symleiddio'r cymhlethdod yr oedd diwydiant a rheoleiddwyr yng Nghymru a Lloegr yn ei wynebu o'r blaen.

Mae sicrhau'r newidiadau hyn drwy offerynnau cyfansawdd a wneir ynghyd â'r Ysgrifennydd Gwladol yn gyson â'r nod o symleiddio y cyfeirir ato uchod. Mae'r offeryn cyfansawdd hefyd yn lleihau anghyfleustra a dryswch posibl i'r rheini y mae'r Rheoliadau'n effeithio arnynt, yn enwedig gan fod Asiantaeth yr Amgylchedd (sy'n rheoleiddiwr) yn gorff trawsffiniol. **Mae'r Rheoliadau cyfansawdd hyn yn gymwys i Gymru a Lloegr ac yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd Prydain. Yn unol â hynny, nid ystyrir ei bod yn rhesymol ymarferol i'r Offeryn hwn gael ei osod ar ffurf ddrafft, na chael ei wneud, yn ddwyieithog.**

Atodiad 5

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

(CLA(4)-01-12)

CLA74

Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Teitl: The Eels (England and Wales) (Amendment) Regulations 2011 (Saesneg yn unig)

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliadau 6 a 7 o *The Eels (England and Wales) Regulations 2009* ('y prif Reoliadau') (Saesneg yn unig), sy'n rhoi ar waith Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1100/2007 sy'n llunio mesurau ar gyfer adfer niferoedd y llysywen Ewropeaidd.

Mae'r gwelliannau'n cywiro gwallau yn y prif Reoliadau a nodwyd gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol wrth graffu ar y Rheoliadau hynny. Ar y pryd, nid oedd offerynnau statudol a oedd yn destun gweithdrefn yn San Steffan yn cael eu craffu arnynt gan bwyllgor cyfatebol yn y Cynulliad Cenedlaethol.

Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

(1) Yn Saesneg yn unig y cafodd y Rheoliadau hyn eu gwneud, gan eu bod yn rheoliadau cyfun ar gyfer Cymru a Lloegr sy'n destun y weithdrefn negyddol yn San Steffan.

[Rheol Sefydlog 21.2(ix) - nid yw'r rheoliadau wedi'u gwneud yn Gymraeg ac yn Saesneg]

Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

16 Ionawr 2012